

# Polisïau Hawliau Tramwy Cyhoeddus

**Polisïau Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

## Cyflwyniad

Llwybrau y mae gan y cyhoedd hawl cyfreithiol i dramwyo drostynt sawl gwaith yw hawliau tramwy cyhoeddus (HTC). Mae hyn yn golygu y gall unrhyw un eu defnyddio i'r diben hwnnw, yn ddi-dâl ac ar unrhyw amser. Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn cynnig ased hamdden a dull o gael mynediad at wasanaethau lleol mewn modd cynaliadwy.

Mae gan Wynedd rwydwaith o tua 3800km o hawliau tramwy cyhoeddus. Gellir torri cyfanswm hyd y rhwydwaith i nifer o gategorïau gan ddibynnu ar natur yr hawl. Crynhoir hyn yn y tabl isod:-

| Statws | Defnyddwyr Cyfreithlon | Symbol | Hyd (km) |
|---|---|---|---|
| **Llwybr Troed** |  |  | **3328** |
| **Llwybr Ceffyl** |  |  | **301** |
| **Cilffordd gyfyngedig** |  |  | **79** |
| **Cilffordd ar Agor i Bob Traffig** |  |  | **39** |

Mae'r prif gyfrifoldeb am hawliau tramwy cyhoeddus yng Ngwynedd yn nwylo Cyngor Gwynedd. Mae ganddo amrywiaeth eang o ddyletswyddau statudol, hynny yw, camau y mae'n ofynnol iddo eu cymryd, yn ogystal â phwerau dewisol, hynny yw camau y gall ddewis eu cymryd.

Fel yr 'awdurdod priffyrdd' ar gyfer Gwynedd, y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a sicrhau bod pob hawl tramwy unigol yn glir o unrhyw rwystrau. Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am wneud newidiadau i'r cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy a elwir wrth yr enw Map a Datganiad Swyddogol.

## Gosod materion hawliau tramwy yn nhrefn blaenoriaeth

Mae'r defnydd o hawliau tramwy yn amrywio yn enfawr o lwybrau a ddefnyddir yn gyson gan lawer o bobl i'r rhai sydd byth neu bron byth yn cael eu defnyddio. Felly, byddai defnyddio'r un lefel o adnoddau ar yr un pryd ar bob llwybr yn anaddas. Er mwyn gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o ran materion hawliau tramwy, cyflwynwyd system gategoreiddio yn ddiweddar, yn seiliedig ar lefel y defnydd ar hawliau tramwy a'u defnyddioldeb presennol neu bosibl. O ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau, mae'n rhesymegol bod datrys problemau ar y rhwydwaith yn cael eu blaenoriaethu fel bod y llwybrau sy'n cael mwyaf o ddefnydd neu'r rhai sy'n cael eu hyrwyddo yn cael eu trin yn gyntaf. Mae'r system gategoreiddio, fel y mae'n cael ei darlunio yn Atodiad 1 o'r Polisïau Cynnal a Chadw a Gorfodi, yn sylfaen hanfodol i arferion gwaith presennol y Cyngor a'i bolisïau arfaethedig. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r llwybrau sydd yng Nghategori 1 a 2.

Cynhaliwyd y broses gategoreiddio trwy ymgynghori â'r Cynghorau Cymuned a Thref. O gofio'r angen i ystyried anghenion presennol a'r dyfodol fel rhan o'r broses Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) (gweler isod), gall y categorïau a ddyrennir i hawliau tramwy newid dros amser yn unol â'r newid mewn anghenion. Petai'r Cyngor yn credu bod sail resymol dros newid categori llwybr unigol neu grŵp o lwybrau, ceisir barn y Cyngor Cymuned neu Dref perthnasol. Gall y Cyngor, yn y dyfodol, gynnal adolygiad cynhwysfawr o ran o'r rhwydwaith llwybrau neu'r rhwydwaith cyfan os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

Fel rhan o'r broses CGHT, sefydlwyd pum categori llwybr. Ond, er mwyn eglurder, mae'r system gategoreiddio wedi cael ei mireinio o bump i bedwar categori ac mae'r diffiniadau ar gyfer pob categori unigol wedi cael ei ehangu a'i egluro. Gobeithir y bydd hyn o gymorth i'r Cyngor a'i bartneriaid i gategoreiddio llwybrau mewn modd ystyrlon a thrwy hynny sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio yn briodol ac effeithiol.

**Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd**

Mae deddfwriaeth ddiweddar, fel Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, wedi cyflwyno cyfrifoldebau ychwanegol i awdurdodau lleol, gyda phwyslais ar ddull strategol o wella hawliau tramwy. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod priffyrdd gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer ei ardal erbyn Tachwedd 2007. Bwriad y Cynllun Gwella yw adnabod, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus dros gyfnod o 10 mlynedd. Fe wnaeth Cyngor Gwynedd fabwysiadu ei Gynllun Gwella yn ffurfiol yn Hydref 2007.

Fel rhan o broses Cynllun Gwella'r Cyngor, penderfynwyd y dylid cynhyrchu set o bolisïau i helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau yn ogystal ag arwain y defnydd o adnoddau yn y dyfodol.

Bydd y polisïau yn nodi'r dull fydd yn cael ei ddilyn gan y Cyngor wrth arfer ei ddyletswyddau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn effeithiol, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Gobeithir hefyd y bydd y polisïau yma yn cynorthwyo aelodau o'r cyhoedd, tirfeddianwyr, defnyddwyr llwybrau a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddeall rhywfaint o'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i hawliau tramwy yn rhwyddach a'r ffordd y bydd Cyngor Gwynedd yn gweithredu'r ddeddfwriaeth yng nghyswllt materion amrywiol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y canlynol:-

- Polisi Cynnal a Chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Polisi Gorfodi Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Polisi Gorchymyn Diwygio'r Map Swyddogol
- Polisi Gorchymyn Llwybrau Cyhoeddus

# Cynnal a Chadw Hawliau Tramwy

**Mae gan Gyngor Gwynedd a thirfeddianwyr gyfrifoldebau parthed y rhwydwaith Hawliau Tramwy.**

## Cyngor Gwynedd – Datganiad o fwriad

***Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i hawlio a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau hawliau tramwy cyhoeddus trwy fabwysiadu polisi teg a chadarn tuag at gynnal a chadw a gorfodi, gyda'r pwyslais ar gydweithredu pan ellir cyflawni hynny, ond gyda chefnogaeth camau cyfreithiol ffurfiol pan fydd hynny'n angenrheidiol.***

## Cyfrifoldebau Cyngor Gwynedd

- **Sicrhau na fydd rhwystrau ar Hawliau Tramwy**
- **Cynnal yr arwyneb mewn cyflwr addas ar gyfer y defnydd a fwriadwyd iddo**
- **Cynnal a chadw rhai pontydd**
- **Gosod arwyddion a chyfeirbwyntiau i ddangos llwybrau**
- **Rhoi caniatâd i osod camfeydd a giatiau**
- **Yn cadw'r Map Swyddogol yn gyfredol**

## Cyfrifoldebau Tirfeddianwyr

- **Ni ddylent osod rhwystrau ar lwybrau nag atal pobl rhag eu defnyddio**
- **Cynnal y rhan fwyaf o gamfeydd a giatiau (gweler y polisi ar gategoreiddio)**
- **Cadw tyfiant ochrol i lawr a thyfiant sy'n tyfu dros y llwybr**
- **Ail osod llwybr ar draws caeau ar ôl troi neu blannu cnydau**
- **Ni ddylent droi llwybrau ar ymylon caeau**
- **Ni ddylent gadw anifeiliaid peryglus (gan gynnwys rhai teirw) ar lwybrau**

# Beth yw Hawliau Tramwy Cyhoeddus?

Hawliau tramwy cyhoeddus yw priffyrdd heblaw ffyrdd cyhoeddus i bob diben. Mae gan Wynedd fwy na 3,800 llwybr cyhoeddus unigol, llawer ohonynt yn cael eu defnyddio ar gyfer hamdden yn bennaf – cerdded, beicio, marchogaeth a gyrru cerbydau "oddi-ar-y-ffordd". Defnyddir y rhan fwyaf o'r rhwydwaith yn achlysurol gan bobl leol ac ymwelwyr.

# Sut yr ydym yn cynnal a chadw a diogelu'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy?

Mae rheolaeth y swyddogaeth Cynnal a Chadw ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) yng Ngwynedd yn cael ei reoli ar lefel genedlaethol yn bennaf gan y ddeddfwriaeth statudol sydd yn Neddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, Deddf Cefn Gwlad 1968, Deddf Priffyrdd 1980, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (WCA81), Deddf Rheoli Trafnidiaeth

Ffyrdd 1984 (RTRA84), y Ddeddf Traffig Ffordd 1988 (RTA88), Deddf Hawliau Tramwy 1990 (RWA90), Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CRoW 2000), Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005, Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC 2006) ac amrywiaeth o reoliadau, cyfarwyddyd a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn ychwanegol at Gyngor Gwynedd fel Awdurdod Priffyrdd, mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chynghorau Tref a Chymuned bwerau i wneud gwaith cynnal a chadw yn eu hardaloedd. Pan fydd yr Awdurdodau hyn yn defnyddio eu pwerau, gall Cyngor Gwynedd gyfrannu at eu costau.

**Mae'r prif Bwerau a Dyletswyddau yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu rhestru yn Atodiad 2.** Yn ychwanegol, mae gan y Cyngor rwydwaith o lwybrau caniataol ar dir naill ai ym mherchenogaeth yr awdurdod, neu dan gytundeb gyda thirfeddianwyr. Nid yw'r rhain yn Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Ond, er mwyn i'r ddogfen fod yn gyflawn, rhoddir polisïau yn ymwneud â'r llwybrau hyn yn **Atodiad 3**.

## 1.1 Gosod cynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn nhrefn blaenoriaeth

Bydd blaenoriaeth ar gyfer cynnal a chadw a chael gwared ar rwystrau, cyn belled ag y gellir, yn cael ei roi i faterion ar lwybrau a ddynodir yn unol â'r Categorïau a ddisgrifir yn Atodiad 1, neu os byddant yn creu risg i iechyd a diogelwch y rhai sy'n defnyddio'r llwybrau, beth bynnag fo eu Categori.

Mae Adran 130A o Ddeddf Priffyrdd 1980, a gynhwyswyd gan Adran 63 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi hawl i aelodau o'r cyhoedd roi rhybudd i'r Cyngor i gael gwared ar rai rhwystrau oddi ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus penodol. Os na fydd yr achwynwr yn fodlon bod y rhwystr wedi ei symud, mae hawl i geisio Gorchymyn gan y Llys Ynadon i gael gwared ar y rhwystr. Rhoddir ystyriaeth a blaenoriaeth, wrth weithredu, i ba Gategori y mae'r llwybr dan sylw yn perthyn iddo.
***Deddf Priffyrdd 1980 Adran 130A***

## 1.2. Arwyddion a Chyfeirbwyntio

Bydd y Cyngor yn gwneud yn siŵr bod hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu harwyddo yn unol â'r statws cyfreithiol cywir (oni bai ei fod yn ystyried nad oes angen arwyddion a bod y Cyngor Cymuned yn cytuno) pan fyddant yn gadael llwybrau metlin, cyn belled ag y mae adnoddau yn caniatáu ac wedi eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth yn unol â Chategori'r llwybr.

Bydd gosod mynegbyst hawliau tramwy newydd neu yn lle rhai eraill fel arfer yn digwydd trwy ddarparu arwyddbost pren neu fetel gyda saeth i ddangos cyfeiriad a statws yr hawl tramwy. Ni fydd rhai llwybrau gydag arwyneb wedi eu selio mewn ardaloedd trefol yn cael eu harwyddo os bydd y Cyngor Cymuned/Tref yn cytuno.

Pan fydd yr hawl tramwy yn rhan o lwybr a hyrwyddir, bydd y Cyngor yn ystyried arwyddion a chyfeirbwyntiau mwy manwl, fel llwybrau wedi'u henwi, cyrchfannau penodol, ac ati, a bydd yn ceisio talu'r costau ychwanegol a dynnir naill ai trwy ffynonellau ariannu mewnol neu allanol. Bydd gosod cyfeirbwyntiau yn cadw at y cyfarwyddyd safonol sy'n cael ei nodi gan Natural England yn ei gyhoeddiad "Waymarking Public Rights of Way".

Bydd y Cyngor yn ceisio darparu cyfeirbwyntiau digonol neu arwyddion eraill fel sy'n briodol lle bynnag y bydd anhawster yn medru codi wrth geisio adnabod rhediad llwybr.

Bydd rhagdybiaeth yn erbyn rhoi cymorth uniongyrchol i gynhyrchu llawlyfrau annibynnol neu ddisgiau logo cysylltiedig, oni bai bod y Cyngor yn hollol fodlon bod:-

- ymgynghori llawn wedi digwydd gyda'r gymuned leol, gan gynnwys tirfeddianwyr a deiliaid a'u bod wedi rhoi eu cymeradwyaeth ar gyfer gosod cyfeirbwyntiau o'r fath, a
- bod y llwybr(au) yn cyd-fynd â'r rhwydwaith llwybrau strategol ac nad ydynt yn ychwanegu yn sylweddol at y gofynion rheoli presennol sydd ar y llwybrau a hyrwyddir yng Ngwynedd.

***Deddf Cefn Gwlad 1968 a27***

## 1.3. Cynnal a chadw camfeydd a giatiau

Dyletswydd y tirfeddiannwr yw sicrhau bod unrhyw gamfeydd a giatiau yn cael eu cadw mewn cyflwr da. Dim ond hyd at sicrhau bod y tirfeddiannwr yn cadw at yr ymrwymiad hwn y mae dyletswydd y Cyngor yn ymestyn a darparu grant o 25% tuag at gost trwsio strwythurau o'r fath neu gael rhai newydd yn eu lle. Wrth ystyried gosod giatiau a chamfeydd newydd, bydd y Cyngor yn ceisio'r dewis lleiaf rhwystrol yn unol â BS 5709:2006 o fwlch, yna giât, yna camfa: Ni fydd y Cyngor yn caniatáu i strwythurau mwy rhwystrol gael eu gosod. Mae gan y Cyngor bŵer i ddarparu grant dewisol, a fydd fel arfer fel y disgrifir isod:
***Deddf Priffyrdd 1980 a 146,147 Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005***

Pan fydd y Cyngor yn gofyn am ddewis llai rhwystrol fel arfer bydd yn cynnig talu unrhyw gostau ychwanegol (e.e. pan fydd giât mochyn yn cael ei gosod yn lle camfa) naill ai o ffynonellau ariannu mewnol neu allanol.
***Deddf Priffyrdd 1980 s 145, 175A (cynhwyswyd gan Ddeddf Personau Anabl 1981)***

***Categori 1.*** Bydd rhagdybiaeth y bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â 100% o gost y gwaith sy'n ofynnol i *gynnal* neu *gyfnewid* (yn unig) dodrefn sy'n bodoli wedi ymgynghori â'r tirfeddiannwr, ond y tirfeddiannwr sy'n parhau yn gyfrifol yn gyfreithiol am y gwaith. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn caniatáu ceisiadau am ddodrefn *ychwanegol*, a fydd beth bynnag yn cael eu hariannu yn llawn gan y tirfeddiannwr. Ni fydd camfa ychwanegol na dodrefn rhwystrol arall yn cael ei ganiatáu fel arfer.

***Categori 2.*** Bydd rhagdybiaeth y bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â 100% o gost y gwaith sy'n ofynnol i *gynnal* neu *gyfnewid* (yn unig) y dodrefn ar ôl ymgynghori â'r tirfeddiannwr, ond mae'r tirfeddiannwr yn parhau yn gyfrifol yn gyfreithiol am y gwaith. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn caniatáu ceisiadau am ddodrefn *ychwanegol*, a fydd beth bynnag yn cael eu hariannu yn llawn gan y tirfeddiannwr. Ni fydd camfa ychwanegol na dodrefn rhwystrol arall yn cael ei ganiatáu fel arfer.

***Categori 3 a 4.*** Ar gyfer dodrefn sy'n bodoli, fel arfer bydd Cyngor Gwynedd yn cyflenwi deunyddiau i dirfeddianwyr am ddim iddyn nhw eu codi ar eu cost eu hunain, ond gall swyddogion ddewis trefnu i'w codi hefyd, gan ddibynnu ar amgylchiadau. Ni fydd unrhyw ddodrefn sy'n fwy rhwystrol na'r rhai a ddefnyddiwyd hyd yn hyn yn cael eu caniatáu. Ar gyfer unrhyw geisiadau am ddodrefn ychwanegol a dderbynnir, a fydd yn cael eu hariannu gan y tirfeddiannwr yn gyfan gwbl, gall y dull mynediad lleiaf rhwystrol gael ei ganiatáu, gyda'r rhagdybiaeth na ddefnyddir camfeydd ysgol heblaw pan na fydd ateb arall yn ymarferol, ac mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Er mwyn diogelu cymeriad yr ardal, bydd camfeydd carreg yn cael eu cynnal gan Gyngor Gwynedd fel arfer, ond er mwyn gwella mynediad, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y tirfeddiannwr, gellir darparu giât yn ychwanegol neu i'w chyfnewid â hi. Dim ond os bydd y llwybr yn glir o rwystrau fel arall y bydd camfeydd carreg yn cael eu cynnal a'u cadw ar lwybrau Categori 3 a 4 a bod cwynion yn cael eu derbyn am gyflwr y gamfa.

Yr amgylchiadau pan fydd y Cyngor yn gallu rhoi caniatâd i godi camfeydd/giatiau newydd ar lwybrau troed a llwybrau ceffyl yn unig yw bod angen y strwythurau ar gyfer dibenion rheoli stoc, (Adran 147 Deddf Priffyrdd 1980). Gall atalfeydd hefyd gael eu cynnal a'u cadw gan y Cyngor dan Adrannau 115b a 66 Deddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 70 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000).
***Deddf Priffyrdd 1980 adrannau 66 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 adran 70) 115b a 147.***

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r grant dewisol yn ôl oddi ar dirfeddianwyr sy'n peidio cydweithredu neu sy'n atal yr Hawl Tramwy Cyhoeddus.
***Deddf Priffyrdd 1980 a146***

## 1.4. Cynnal yr arwynebau

Mae arwyneb y rhan fwyaf o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn perthyn i'r Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd, dim ond i'r isbridd y mae budd y tirfeddiannwr yn ymestyn. Bydd y Cyngor yn cynnal a chadw arwyneb Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn addas i'w categori dynodedig a'u statws fel eu bod yn ddiogel ac yn addas i'r holl gyhoedd cyfreithlon eu defnyddio. Gellir ystyried gwneud gwelliannau i'r arwyneb i fodloni'r dyletswyddau newydd a nodir yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a'r Deddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005.

Ar Gilffyrdd sy'n Agored i Bob Traffig pan fydd traffig cerbydol yn sylweddol i'r graddau bod cynnal arwyneb boddhaol gan ddefnyddio deunyddiau rhydd yn mynd yn afresymol ar gyfer adnoddau'r Uned HTC, bydd y canlynol yn berthnasol:

Bydd y gwaith a ddynodir yn cael ei wneud gydag arian o'r gyllideb cynnal a chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus (oni bai ei bod yn bosibl cael cyfraniadau o ffynonellau allanol, fel defnyddwyr sylweddol neu Ymgymerwyr Statudol) a bydd yn amodol ar uchafswm o 10% o'r gyllideb sydd ar gael yn yr ardal honno mewn unrhyw un flwyddyn ariannol. Byddai'r gwaith addas yn cynnwys taenu a rowlio plaeniadau tar ac yna dwy gôt o ddeunydd wynebu, neu roi macadam bitwmen yn ôl manyleb yr Awdurdod Priffyrdd, gyda pheiriant.

Yn achos plaeniadau tar sy'n cael eu chwistrellu ddwywaith (yn unig), yn ystod y tymor wynebu canlynol, bydd haen arall yn cael ei rhoi, eto yn cael ei ariannu o gyllideb cynnal a chadw HTC ac yn cael ei gynnwys yn ffigwr uchafswm 10% y flwyddyn honno.

Ar y cyfnod hwn, byddai'r Cilffyrdd sy'n Agored i Bob Traffig yn cydymffurfio â'r ddogfen "Ffyrdd Gwledig: Canllawiau Mabwysiadu" a gymeradwywyd gan Gyngor Gwynedd. Wedyn bydd y llwybr yn cael ei fabwysiadu trwy gyhoeddi Hysbysiadau dan Adran 228, Deddf Priffyrdd 1980 ac yna byddant yn cael eu harolygu a'u trwsio fel arfer gan yr Adran Priffyrdd yn unol â'r gwaith a wneir ganddynt ar ffyrdd eraill tebyg.

Dim ond y lefel o gynnal a chadw sy'n angenrheidiol ar gyfer eu statws cyfreithiol y bydd ffyrdd lle mae hawliau cerbydau preifat yn ei gael. Gall y Cyngor gymryd camau gorfodi mewn achosion addas os bydd amharu neu ddifrodi ar arwyneb Hawl Tramwy Cyhoeddus yn

anghyfreithlon (nid yw'n berthnasol i ddifrod gan gerbydau ar Gilffyrdd sy'n Agored i Bob Traffig). Gall y Cyngor ystyried gwneud cyfraniad o hyd at 5% tuag at gost *cynnal a chadw*'r arwyneb i'r graddau sy'n ofynnol ar gyfer y lefel a'r defnydd o hawliau cyhoeddus.

Gwneir rhagdybiaeth yn erbyn caniatáu arwynebau newydd wedi eu selio ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd heb arwyneb, oni bai y gellir dangos bod arwyneb o'r fath yn gydnaws â statws cyfredol y ffordd a'r defnydd ohoni, ac y gellir dangos yr angen am y newid arwyneb. Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y cyfrifoldeb cynnal a chadw uwch a geir, os rhoddir caniatâd. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd raid i'r fanyleb gael cymeradwyaeth Priffyrdd Gwynedd a mynd trwy'r gweithdrefnau tendro arferol os bydd cyfraniad gan y Cyngor yn cael ei wneud.

Rhaid i dirfeddianwyr neu ddeiliaid sy'n dymuno gwella arwyneb Hawl Tramwy Cyhoeddus y mae ganddynt hawl i gerbydau preifat drosto wneud cais ysgrifenedig i'r Cyngor. Bydd gofyn cael manylion llawn y gwaith sydd i'w wneud a phrawf o gytundeb y tirfeddianwyr cyn y gellir ystyried rhoi caniatâd i newid yr arwyneb. Pan gytunir i *wella*'r arwyneb bydd hyn fel arfer ar y sail bod yr ymgeisydd yn talu'r costau dan sylw ac yn parhau i gynnal yr arwyneb ac unrhyw ddraeniau angenrheidiol i'r safon newydd ar ei gost ei hun.

Bydd y Cyngor yn ystyried gwneud Gorchmynion Rheoli Trafnidiaeth ar lwybrau sy'n cael eu difrodi yn gyson neu sylweddol oherwydd defnydd gan gerbydau boed yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, yn unol â chyfarwyddyd y DETR 'Making the Best of Byways'.

Y Cyngor hefyd sy'n gyfrifol bod y llystyfiant sy'n tyfu ar arwyneb yr Hawl Tramwy Cyhoeddus yn cael ei gadw dan reolaeth ac nad yw'n gwneud y llwybr yn anoddach i'w ddefnyddio. Gall y Cyngor neu Gynghorau Cymuned yn gweithredu fel ei asiant wneud gwaith cynnal a chadw blynyddol yn ôl y gofyn gydag un, dau neu dri thoriad ar lwybrau gan ddibynnu ar bwysigrwydd y llwybr, argaeledd a'r math o lystyfiant fel y dynodir isod:

**Categori 1.** Hyd at 3 thoriad y flwyddyn mewn lleoliadau dethol lle bydd cwynion cyson yn cael eu derbyn dros amser er mwyn cadw'r llwybr ar agor ac yn gyfleus i'w ddefnyddio oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn mynnu ei fod yn cael ei dorri yn amlach.

**Categori 2.** Dim mwy na 2 doriad y flwyddyn mewn lleoliadau dethol lle bydd cwynion cyson yn cael eu derbyn dros amser i gadw'r llwybr ar agor ac yn gyfleus i'w ddefnyddio oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn mynnu ei fod yn cael ei dorri yn amlach.

**Categori 3.** Pan fydd y tyfiant yn rhwystrol a bod cwynion yn cael eu derbyn ac yn ddibynnol ar argaeledd cyllideb, dim mwy nag 1 toriad y flwyddyn mewn lleoliadau dewisol, gan ganolbwyntio ar y tyfiant mwyaf rhwystrol fel rhedyn, mieri, grug ac eithin, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gofyn am eu torri yn amlach neu waith mwy cynhwysfawr.

**Categori 4** Dim torri cyson ond yn ddibynnol ar argaeledd cyllideb, gall y tyfiant gael ei glirio o bryd i'w gilydd os yw'n rhwystrol a bod cwynion yn cael eu derbyn.

***Deddf Priffyrdd 1980 adrannau 41, 50, 131, 131A ac Atodlen 12A***
***Deddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 adran 1, 14, 16***

## 1.5. Lled ailosod Hawliau Tramwy

Bydd Cyngor Gwynedd yn cymryd lleiafswm lled Hawliau Tramwy Cyhoeddus fel y maent yn cael eu diffinio yn Atodlen 12A Deddf Priffyrdd 1980, oni bai bod y lled hwn yn amherthnasol – e.e. yng nghyswllt lonydd caeedig, lle bydd y lleiafswm lled yn cyfateb i'r lle sydd ar gael rhwng y ffiniau hanesyddol. Bydd yn ystyried tystiolaeth i'r gwrthwyneb ar sail achos wrth achos.

Os yw lled y llwybr wedi ei brofi e.e. trwy gynnwys datganiad i gyd-fynd â'r Map Swyddogol, y lled hwnnw yw'r lleiafswm lled. Os nad yw'n cael ei brofi, y lleiafswm lled yw:

- llwybr troed ar draws cae 1.0m.
- llwybr troed ar dalar 1.5m.
- llwybr ceffyl ar draws cae 2m.
- llwybr ceffyl ar dalar neu lwybr cerbyd (boed ar draws cae neu dalar) 3 metr.

Pan fydd llwybrau yn cael eu dargyfeirio neu fod datblygiad i ddigwydd yn agos atynt, cymerir mai'r lleiafswm lled yw 2.0m i lwybrau troed, 3.0m i lwybrau ceffyl a 3.5m i lwybrau cerbydau oni bai bod amodau arbennig yn berthnasol.
***Deddf Priffyrdd 1980, atodlen 12A***

## 1.6. Cynnal a chadw pontydd, cylfatau, a strwythurau eraill

Y Cyngor sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o bontydd troed, ond pan fydd llwybr cyhoeddus neu lwybr ceffyl yn croesi pont, y mae hawliau cerbyd preifat drosti hefyd, gall y tirfeddiannwr hefyd fod yn gyfrifol am beth gwaith cynnal a chadw a thrwsio. Gall y Cyngor ystyried grant dewisol tuag at y gwaith hwn, na fydd yn fwy na chost darparu pont droed yn y lleoliad hwnnw. Os bydd pont o'r fath yn cael ei sgubo i ffwrdd, neu fod rhaid ei dymchwel am resymau diogelwch, yna gall y Cyngor gytuno gyda'r tirfeddiannwr i godi pont droed neu bont farch yn ei lle fel sy'n addas, os na fydd ei hangen ar gyfer cerbydau mwyach. Mewn amgylchiadau felly, y Cyngor fyddai'n llwyr gyfrifol am y strwythur newydd.

Bydd gosod a darparu strwythurau newydd yn cael eu blaenoriaethu ar sail y galw gan y cyhoedd a phan fydd cyfiawnhad (ac eithrio cyn belled ag y mae'n angenrheidiol i gydymffurfio â'i ddyletswyddau cynnal a chadw cyfreithiol), gyda blaenoriaeth yn ôl y categori Llwybr a'r adnoddau sydd ar gael.

Mae Network Rail ac Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru) yn cadw cyfrifoldeb cynnal a chadw am lawer o'u strwythurau. Ni fyddai'r Cyngor yn rhoi unrhyw grant tuag at gynnal a chadw'r strwythurau hyn. Byddai'r Cyngor yn dal i gadw cyfrifoldeb am arwyneb y llwybr dros y strwythurau hyn.

Gall strwythurau cyfreithlon eraill sy'n angenrheidiol i ddiogelu argaeledd Hawl Tramwy Cyhoeddus sy'n gofyn am waith cynnal a chadw dderbyn grant at gyfran o'r gost gan y Cyngor yn ddibynnol ar y buddiannau preifat eraill fydd yn y strwythur.

Pan fydd perchennog tir neu ddeiliad tir yn creu ffos, pwll dŵr neu sianel ac ati newydd, sy'n croesi Hawl Tramwy Cyhoeddus presennol, rhaid i'r datblygwr ddarparu pont neu strwythur addas a fydd yn caniatáu mynediad i'r holl ddefnyddwyr cyfreithlon yn ddiogel a heb gyfyngiad. Gall absenoldeb pont neu strwythur arall addas gael ei ystyried yn "rwystr bwriadol" ar ran y tirfeddiannwr neu ddeiliad.
***Deddf Priffyrdd 1980 adrannau 91, 92, 146 a 328(2)***

## 1.7. Gwaith draenio a lleddfu llifogydd

Bydd Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio ag Adran 100 Deddf Priffyrdd 1980, o ran draeniad ar ac oddi ar bob hawl tramwy cyhoeddus.

Wrth ymateb i gynlluniau lliniaru llifogydd a fyddai neu a allai achosi i Hawl Tramwy Cyhoeddus lifo yn fwy aml neu a fyddai'n cynyddu dyfnder y llifogydd presennol yn sylweddol, gall y Cyngor ofyn am ddarpariaeth i ddiogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau'r Hawl Tramwy Cyhoeddus. Gellir cyflawni hyn trwy waith peirianneg, darparu pontydd neu wyro'r llwybr. Gofynnir am gytundeb y bydd yr atebolrwydd am gynnal a chadw unrhyw strwythur newydd sy'n deillio o'r ddarpariaeth hon a'r holl gostau cysylltiedig yn aros gyda'r sefydliad sy'n gweithredu'r prosiect lleddfu llifogydd.

Pan fydd y Cyngor yn ystyried bod effaith cynlluniau lleddfu llifogydd o'r fath o natur de minimis, efallai na fydd angen unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer y ffyrdd.
Rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i waith sy'n ymdrin â draeniad neu leddfu llifogydd gan y gall y gwaith hwn gael effaith ar gynefinoedd gwlypdir.
***Deddf Priffyrdd 1980, adran 100***

## 1.8. Arolygon ac archwiliadau

Bydd arolygon ar y rhwydwaith hawliau tramwy yn digwydd mewn tair ffordd fel arfer:

**1.8.1.** Arolygon gan staff a fydd yn ceisio cynnwys 50% o'r rhwydwaith Categori 1 y flwyddyn i sicrhau bod y rhwydwaith Categori 1 cyfan yn cael ei arolygu bob dwy flynedd o leiaf.

**1.8.2.** Arolygon gan grwpiau defnyddwyr, yn cynnwys sampl 5% ar hap o hyd y rhwydwaith Hawliau Tramwy Categori 1 – 3 bob blwyddyn. (2.5% o'r rhwydwaith i'w arolygu yn y Gwanwyn a 2.5% yn yr Hydref).

**1.8.3.** Archwiliadau gorfodi a chynnal a chadw, o ganlyniad i adroddiad neu gŵyn. Bydd y rhain yn cael eu cyfyngu yn ddaearyddol i ardal y digwyddiad ac yn seiliedig ar y categorïau blaenoriaethu Hawliau Tramwy Cyhoeddus (gweler 1.1).

## 1.9. Rasio beiciau a threialon cerbydau modur ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Bydd Cyngor Gwynedd yn caniatáu digwyddiadau o'r fath dros Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan gymryd y bydd y trefnwyr a'r rhai fydd yn cymryd rhan yn cydymffurfio yn llawn ag Adran 31 ag Adran 33 o'r Ddeddf Traffig Ffordd 1988. Gellir gwrthod caniatâd mewn achosion pan fydd treial wedi methu cadw at y dyletswyddau hyn dan Ddeddf Traffig Ffordd 1988, neu pan fydd rhesymau da eraill dros wneud hynny yn bodoli.
***Deddf Traffig Ffordd 1988 adrannau 31 a 33***

## 1.10. Cŵn ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Ar achlysuron pan fydd y Cyngor wedi cael gwybod am gŵn yn poeni da byw, cŵn yn baeddu neu unrhyw faterion eraill yn ymwneud â chŵn ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, bydd arwyddion yn cael eu darparu i dirfeddianwyr yn gofyn i ddefnyddwyr gadw eu cŵn dan reolaeth agos, neu ofyn i berchennog y ci i gael gwared â'r baw ci. Pan fydd problemau sylweddol yn codi, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr uned orfodi addas yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddefnyddio ei bwerau dan Adran 27, Deddf Traffig Ffordd 1988 sy'n gofyn am i gŵn gael eu cadw ar dennyn ar Hawl Tramwy Cyhoeddus penodol. Mae peidio â chadw at hynny yn drosedd.

Ni fydd unrhyw ddodrefn presennol yn cael ei newid i ganiatáu mynediad i gŵn ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ond fe roddir ystyriaeth i achosion pan fydd y tirfeddiannwr perthnasol a'r defnyddiwr wedi gofyn am hynny. Fodd bynnag, bydd prosiectau a weithredir trwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn annog tirfeddianwyr i ganiatáu giatiau newydd mewn ardaloedd sy'n agos at boblogaeth er mwyn gwella mynediad ac atal difrod i'r dodrefn a'r ffensys sy'n bodoli.

## 1.11. Tir peryglus yn gyfagos i Hawl Tramwy Cyhoeddus

O bryd i'w gilydd mae'r Cyngor yn dod ar draws peryglon heb eu ffensio ar dir cyfagos, sy'n creu perygl i ddefnyddwyr y llwybr neu a all fod yn cyfateb i niwsans statudol. Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddiogelu defnyddwyr llwybrau rhag peryglon o'r fath. Gall y Cyngor weithredu dan Adran 165 Deddf Priffyrdd 1980.

Gall y Cyngor ofyn i berchennog y tir peryglus wneud y gwaith angenrheidiol trwy gyflwyno rhybudd. Os na fydd y perchennog yn cydymffurfio â'r rhybudd, gall y Cyngor wneud y gwaith ac adfer y costau gan y perchennog.
***Deddf Priffyrdd 1980 adran 165. Deddf Pyllau a Chwareli 1954 adran 151(1), Deddf Diogelu Amgylcheddol 1990***

## 1.12. Ariannu gwaith cynnal a chadw a gwelliannau

Bydd gwaith cynnal a chadw arferol yn cael ei ariannu gan y gyllideb cynnal a chadw Hawliau Tramwy. Ariannir strwythurau a phontydd dros 3.5m – 7.0m (gan ddibynnu ar amgylchiadau) trwy ffynonellau eraill.

Bydd cynlluniau gwella a gwaith anstatudol yn cael eu trin trwy'r grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) neu trwy ffynonellau ariannu eraill. Ni fydd y Cyngor yn cyfrannu at wella a thrwsio ffyrdd preifat (heblaw i'r graddau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'i ddyletswydd cynnal a chadw cyfreithiol) y mae hawl tramwy drostynt hefyd, oni bai bod y difrod wedi ei wneud oherwydd defnydd cyhoeddus cyfreithlon o'r ffordd (ac eithrio defnydd cyhoeddus o Gilffyrdd sy'n Agored i Bob Traffig).

Ni fydd y Cyngor, oni bai ei bod yn angenrheidiol er budd y briffordd, yn cyfrannu at ddarparu neu gynnal a chadw ffensys newydd ar neu yn agos at Hawl Tramwy Cyhoeddus. Gall cynlluniau gwella sy'n cael eu trin trwy'r grant Gwella Hawliau Tramwy gynnwys darparu gwaith ffensio.

## 1.13. Cefnogaeth i lwybrau a hyrwyddir

Disgwylir y bydd yr holl gyffyrdd a chroesfannau ffordd ar lwybr a hyrwyddir wedi cael eu harchwilio a'u gwirio gan yr hyrwyddwr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion gweld yn "All Wales Estate Development Highways Design Guide" (1996) Cymdeithas Syrfewyr y Sir cyn eu cyhoeddi. Bydd ar Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Gwynedd angen tystiolaeth o gytundeb i lwybrau caniataol (h.y. rhai nad ydynt yn Hawl Tramwy Cyhoeddus) fel rhan o lwybr a hyrwyddir am gyfnod o leiafswm o 10 mlynedd o ddyddiad y gefnogaeth, a bod yn fodlon ar amodau cytundeb o'r fath.

Ni fydd llwybrau sy'n cael eu datblygu gan unigolion neu sefydliadau heb ymgynghori ymlaen llaw gyda'r Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu cynnwys ar fapiau O.S. Bydd unigolion a sefydliadau yn cael eu hannog i drafod syniadau o'r fath gyda'r Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn y lle cyntaf i asesu sut y mae'r cynnig yn gweddu i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy strategol. Gall unrhyw gyfeirbwyntiau nad ydynt wedi eu caniatáu gael eu tynnu a gall unrhyw gost a dynnir gael ei chodi ar yr unigolyn neu sefydliad sy'n gyfrifol.
***Deddf Priffyrdd 1980 adran 132***

## 1.14. Ystyriaethau Hanesyddol a Phensaernïol

Pan all gwaith cynnal a chadw neu wella Hawliau Tramwy Cyhoeddus amharu ar safleoedd a gofnodwyd fel Henebion neu Strwythurau a Restrwyd, rhaid cysylltu ac ymgynghori â Swyddog Cadwraeth y Cyngor neu'r Parc Cenedlaethol, fel sy'n briodol.

## 1.15. Agweddau ecolegol/bioamrywiaeth

Pan gynigir gwaith cynnal a chadw ffisegol neu waith gwella, mae'n bwysig ystyried effaith ecolegol cynigion o'r fath.

Dylai gwaith ar Hawl Tramwy Cyhoeddus sy'n croesi tir a ddynodwyd am ei ddiddordeb ecolegol neu ddaearegol roi ystyriaeth i ddiddordeb cadwraeth natur y safle i sicrhau na fydd cynefinoedd, rhywogaethau neu nodweddion daearegol yn cael eu niweidio. Dan reoliad 48 o Reoliadau Cynefinoedd 1994, gall cynigion sydd mewn neu'n gysylltiedig â Safleoedd Ewropeaidd fel Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) neu Ardal Warchodaeth Arbennig (AWA) gael eu sgrinio am y tebygolrwydd y bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd. Gall gwaith mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu Warchodfa Natur Genedlaethol gynnwys gweithred a all fod yn niweidiol a dylid ymgynghori â Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC). Yn ychwanegol gall ardaloedd o Wynedd gynnwys Safleoedd Bywyd Gwyllt, fel Gwarchodfeydd Natur Lleol sy'n ddynodiadau anstatudol. Pan feddylir bod gwaith ar Hawl Tramwy Cyhoeddus yn medru effeithio ar ardal o bwysigrwydd bywyd gwyllt, dylid ceisio cyngor ecolegol gan Dîm Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd.

Rhaid bod yn ofalus yn ystod unrhyw waith cynnal a chadw i atal unrhyw amharu na difrod i rywogaethau sy'n dirywio neu sy'n fregus, llawer ohonynt yn cael eu diogelu yn gyfreithiol. Dylid rhoi pwysigrwydd arbennig i amseriad y gwaith hwn er mwyn osgoi niweidio rhywogaethau sy'n cael eu diogelu. Dylai swyddogion fod yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r prif rywogaethau (adar, planhigion ac anifeiliaid) a pha ystyriaethau y dylent eu cymryd.

Yn ychwanegol mae adran 40, Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn gosod dyletswydd statudol ar holl Wasanaethau Awdurdod Lleol ynglŷn â bioamrywiaeth gan nodi "Dylai pob corff cyhoeddus, wrth ymarfer ei swyddogaethau, roi ystyriaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n briodol, i ddiben gwarchod bioamrywiaeth". Mae hyn yn golygu bod cadwraeth bioamrywiaeth yn cael ei integreiddio yn briodol trwy'r holl bolisïau a gweithgareddau adrannol, a bod rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd yn cael eu diogelu'n briodol yn unol ag ymrwymiadau cadwraeth natur.

Rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i waith yn ymwneud â draenio neu leddfu llifogydd gan y gall y gwaith yma gael effaith ar gynefinoedd gwlypdir.

Rhaid i unrhyw chwynladdwr a ddefnyddir gydymffurfio â chyfarwyddyd Asiantaeth yr Amgylchedd a dim ond rhai chwynladdwyr a ddylid eu defnyddio gerllaw i gyrsiau dŵr. Gall

rhywogaethau ymledol fel Llysiau'r Dial dyfu ar hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac ni ddylid defnyddio strimmer ar y rhain, ond eu trin gan ddilyn canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ni ddylid chwistrellu dros Hawl Tramwy Cyhoeddus ac os bydd label y cynnyrch yn nodi y dylai pobl gadw allan o'r cnwd sydd wedi ei chwistrellu, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r angen am arwyddion rhybuddio pan fydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn croesi neu yn ymuno â'r ardal sydd wedi ei thrin.
***Rheoliadau Cadwraeth (Naturiol, Cynefinoedd ac ati)1994, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Deddf Moch Daear 1992, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith,ac ati 1974***

## 1.16. Amgylchedd a Chynllunio

Pan gynigir gwaith cynnal a chadw ffisegol neu welliannau i Hawl Tramwy Cyhoeddus, mae'n bwysig ystyried effaith gweledol cynigion o'r fath ar y tirlun ehangach, yn arbennig o fewn terfynau unrhyw ddynodiad amgylcheddol arbennig fel Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ardaloedd Cadwraeth Tirlun a Pharc Cenedlaethol Eryri. Ymgynghorir ag Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol mewn achosion pan fydd caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer llwybrau newydd.

## 1.17. Contractwyr/Tendrwyr

Bydd yr Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Gorchmynion Sefydlog yn ymwneud â gosod contractau sy'n cael eu cynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor.

## 1.18. Beicio

Gall y Cyngor ganiatáu i lwybrau beic gael eu datblygu dros Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol o gymryd bod caniatâd wedi cael ei geisio gan y tirfeddianwyr/deiliaid tir perthnasol i gyd, ac ar yr amod nad yw'n cael effaith niweidiol ar yr hawliau cyhoeddus sy'n bodoli. Pan fydd hynny'n addas, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i lwybrau beic newydd fod ar gael ar gyfer amlddefnydd (h.y. defnydd cadair olwyn a cheffylau).

## 1.19. Cytundebau Llwybrau Caniataol

Gall y Cyngor lunio Cytundebau Llwybrau Caniataol (h.y. dim Hawl Tramwy Cyhoeddus) gyda thirfeddianwyr pan fydd yn ystyried bod mantais i'w gweld i'r cyhoedd wrth wneud hynny. Bydd Cytundebau Llwybrau Caniataol yn amrywio o ran amodau a thelerau gan ddibynnu ar bob achos. Ond, os bydd Cytundeb Llwybr Caniataol yn cael ei wneud i leihau problemau sy'n gysylltiedig â hawl tramwy Swyddogol penodol yna ni fydd cytundeb o'r fath yn effeithio ar hawl unigolyn i ddefnyddio'r llwybr Swyddogol penodol hwnnw.

**Gall cytundebau gael eu hystyried hefyd fel rhan o gynnig Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus**.

**Pan fydd gan y Cyngor bolisi fel yr amlinellir uchod bydd yn ystyried a ddylid gwneud eithriad ar sail teilyngdod mewn achosion addas.**

## Atodiad 1 – Categorïau Llwybrau

| Categori | |
|---|---|
| 1 | Llwybrau sy'n hwyluso symudiad pobl. Bydd y rhain fel arfer yn cael defnydd sylweddol neu'n ffurfio cyswllt mewn trefi, pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafnidiaeth cyhoeddus, meysydd parcio, ac atyniadau hamdden.<br><br>Llwybrau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Gwynedd, neu'r Awdurdodau Iechyd, ynghyd â llwybrau trefol a ddefnyddir yn aml a llwybrau rhwng trefi yn bennaf gydag arwyneb caled, gan gynnwys llwybrau a uwchraddiwyd yn "Mynediad i Bawb".  Dim camfeydd heblaw mewn amgylchiadau eithriadol mewn ardaloedd gwledig iawn, lle gwneir pob ymdrech i gael gwared arnynt cyn gynted ag y byddo'n ymarferol. |
| 2 | Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pleser gan gynnwys llwybrau o amgylch cymunedau, teithiau cylchol, mynediad at draethau neu lwybrau a hyrwyddir.<br><br>Llwybrau sydd wedi treulio, heb arwyneb wedi ei greu o angenrheidrwydd, llwybrau a hyrwyddir gan grwpiau Cymunedol os nad ydynt wedi eu cynnwys yng Nghategori 1. Ychydig iawn o gamfeydd gyda'r rhagdybiaeth y byddant yn cael eu newid yn giatiau mewn amser pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol. |
| 3 | Llwybrau, a dim ond defnydd achlysurol arnynt, ond er bod llai o ddefnydd, yn ffurfio cyswllt pwysig rhwng y llwybrau yng nghategorïau 1 a 2 neu rhwng cymunedau lle mae ychydig iawn i'ch annog i gerdded ar hyn o bryd. Gall y rhain gynnwys dolenni posibl rhwng cymunedau.<br><br>Llwybrau llai eu defnydd sy'n creu dolenni defnyddiol neu ddolenni posibl. |
| 4 | Llwybr heb unrhyw fudd na photensial amlwg lle mae llwybr arall rhesymol a chyfleus ar gael ar lwybr categori uwch.<br><br>Llwybrau gydag anghysonder hysbys ar y Map Swyddogol.<br><br>Llwybrau cyfochrog iawn, lle mae'r llwybrau hyn yn ddewis llai atyniadol, neu lwybrau cul-de-sac gydag ychydig iawn neu ddim potensial ar gyfer ffurfio cyswllt ymarferol â mynediad arall. |

Sylwer: Mae Categori pob llwybr yn cael ei adolygu yn gyson

## Atodiad 2 – Prif Ddyletswyddau a Phwerau yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| **Dyletswyddau** | • ***Hawlio a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau unrhyw briffordd yr ydym ni'n awdurdod priffyrdd ar ei chyfer, gan gynnwys unrhyw dir ar ochr y ffordd sy'n rhan ohoni. [Priffyrdd [HA80 a1; ddiwygiwyd gan CRoW2000 a63]***<br>• ***Rhoi ystyriaeth i anghenion pobl â phroblemau symud wrth roi caniatâd i gamfeydd ac ati [HA80 a147(2A) a (2B) a ddiwygiwyd gan CRoW2000 a69]***<br>• Cynnal priffyrdd sy'n gynaliadwy ar gost y cyhoedd [HA80 a41]<br>• Codi a chynnal arwyddion pan fydd unrhyw draffig Hawl Tramwy Cyhoeddus yn gadael ffordd wedi ei thario [CA68 a27]<br>• Codi arwyddion o'r fath os yw hyn yn angenrheidiol ym marn yr Awdurdod Priffyrdd i gynorthwyo pobl sy'n anghyfarwydd â'r ardal i ddilyn y ffordd [CA68 a27] oni bai bod Cynghorau Cymuned yn gofyn yn benodol i ni beidio<br>• Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 [DDA95]<br>• Ymateb i rybudd i symud rhwystr [HA80 a130A] |
| | • Gorfodi darpariaeth parthed; troi llwybrau cyhoeddus neu lwybrau ceffyl [HA80 a134; a ddiwygiwyd RWA90 a1]<br>• Codi/cynnal arwyddion ar hyd unrhyw lwybr troed/llwybr ceffyl/Cilffordd ar Agor i Bob Traffig [CA68 a27]<br>• Pwerau o ran giatiau ar draws priffyrdd [HA80 a145]<br>• Pwerau i erlyn ar rwystrau [HA80 a137]<br>• Caniatáu rhwystr newydd [HA80 115b a 66 fel y'i diwygiwyd gan CRoW a70]<br>• Cynnal llwybrau troed a llwybrau ceffyl ddylai cael eu cynnal yn breifat [HA80 a50],<br>• Erlyn am ddifrodi'r briffordd, ac yn y blaen [HA80 a131]<br>• Erlyn am amharu ar arwyneb rhai priffyrdd [HA80 a131A]<br>• Adeiladu pont sydd i'w chynnal ar draul y cyhoedd [HA80 a91]<br>• Ailadeiladu pont sy'n rhan o lwybr cyhoeddus [HA80 a92]<br>• Trwsio camfeydd ac ati [HA80 a146]<br>• Draenio priffyrdd [HA80 a100]<br>• Tynnu marciau heb eu hawdurdodi [HA80 a132]<br>• Tynnu strwythurau [HA80 a143]<br>• Troi ac ati llwybr troed neu lwybr ceffyl [HA80 a134]<br>• Pŵer i orchymyn i droseddwr symud rhwystr [HA80 137ZA]<br>• Ymyrraeth gan gnydau [HA80 a137A]<br>• Pwerau'r Awdurdod Priffyrdd o ran ymyrryd ar y briffordd [HA80 atodlen 12A]<br>• Pŵer i symud strwythurau oddi ar y briffordd [HA80 a143]<br>• Gweithredu ar ollwng pethau ar y briffordd [HA80] a148(c)<br>• Gwaharddiad ar gadw teirw ar dir y mae Hawl Tramwy Cyhoeddus yn ei groesi [WCA81 a 59]<br>• Gwneud Gorchmynion Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd [RTRA84 a1]<br>• Gwneud Gorchmynion Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd dros dro [RTRA84 a14 & a 16]<br>• Gofyn am symud weiren bigog [HA80 a164]<br>• Gofyn am dynnu arwyddion [RTRA84 a69]<br>• Gweithredu ar rai mathau o berygl neu aflonyddwch i ddefnyddwyr y briffordd [HA80 a161]<br>• Cludo Dryll mewn man cyhoeddus [Deddf Drylliau 1968 (FA68) a 19]<br>• Difrod i briffordd o ganlyniad i gau'r haul a'r gwynt allan [HA80 a136]<br>• Gofyn am dorri coed neu wrychoedd sy'n tyfu dros y ffordd neu yn achosi perygl [HA80 a154; diwygiad CRoW2000 a65]<br>• Ofn neu ysgogi trais [Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (POA86) a4]<br>• Gweithredu ar arddangos hysbysiadau ar lwybrau cyhoeddus yn atal defnydd gan y cyhoedd [NPACA49 a57]<br>• Caniatáu i gamfeydd gael eu codi ac ati ar lwybr troed neu lwybr ceffyl [HA80 a147]<br>• Rheoleiddio rasio beiciau ar ffyrdd cyhoeddus [RTA88 a31]<br>• Rheoli'r defnydd o lwybrau troed a llwybrau ceffyl ar gyfer treialon cerbydau modur [RTA88 a33]<br>• Gweithredu ar dir Peryglus yn gyfagos i stryd [HA80 a 165] |

**Atodiad 3 – Llwybrau Caniataol (Dim Hawliau Tramwy Cyhoeddus)**

**Llwybrau caniataol.**
Mae'r Cyngor wedi sefydlu llwybrau caniataol ar dir sydd naill ai ym meddiant yr awdurdod neu trwy gytundeb â thirfeddianwyr, mae'r rhain yn cynnwys:

1. **Y rhwydwaith Lonydd Glas** – mae'r rhain yn cynnig tua 50km o lwybrau oddi ar y ffordd yn bennaf yng Ngwynedd, a ddyluniwyd yn arbennig ar gyfer cerdded a beicio, er bod gan farchogion hawl i ddefnyddio rhai rhannau. Wedi eu sefydlu gan ddefnyddio hen rheilffyrdd nad ydynt yn cael eu defnyddio, mae'r llwybrau yn cael eu defnyddio trwy ganiatâd ac yn cael eu cynnal a'u cadw gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
2. **Safleoedd a reolir** – mae'r rhain yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol a choetiroedd cymunedol.
3. **Llwybr Arfordirol** – mae rhannau o Lwybr Arfordirol Llŷn yn llwybrau caniataol. Mae'r rhan fwyaf o'r cytundebau am 25 mlynedd.
4. **Pont y Bermo** - yn amodol ar doll dymhorol a chytundeb blynyddol gyda Network Rail.

Mae defnydd y cyhoedd o'r cyfleusterau hyn yn cael ei annog a'i hyrwyddo trwy lyfrynnau, gwybodaeth ar y safle neu ar wefan y Cyngor neu wefannau eraill.

Yn gyffredinol bydd yr holl lwybrau dan sylw yn cael eu trin fel llwybrau categori 1 neu 2, ond mae rhai gwahaniaethau pwysig:

1. Prif gyfrifoldeb y Cyngor yw un tirfeddiannwr, o ran bod raid iddo arfer ei ddyletswydd gofal i'r cyhoedd sy'n defnyddio ei gyfleusterau.
2. Gall y llwybrau gael eu cau dros dro neu eu newid heb gyfeirio at ddeddfwriaeth yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Ond, mae'n arfer da ymgynghori a hysbysu'r cyhoedd neu asiantaethau eraill am y bwriad i gau neu newid.
3. Nid oes raid i'r awdurdod ariannu cynnal a chadw'r llwybrau hyn.
4. Ni fydd unrhyw gronfeydd cyfalaf yn cael eu dyrannu ar gyfer archwilio a chynnal a chadw'r prif bontydd a strwythurau.

**Cynnal a chadw ac archwiliadau**

Mae gwaith cynnal a chadw a gynllunnir ac ymatebol yn cael ei ariannu trwy gyllideb flynyddol fechan.

**a. Gwaith cynnal a gynlluniwyd**:

**i. Lonydd Glas :** y prif nodau cynnal a chadw yw:
- cadw coridor tua 4m o led wrth uchder o 3m heb dyfiant drosto a heb rwystr (rhoddir uchder ychwanegol ar gyfer y rhannau y mae marchogaeth wedi ei ganiatáu arnynt).
- cadw giatiau, mannau mynediad, meysydd parcio ac ardaloedd eistedd yn glir o sbwriel ac yn "daclus" yn gyffredinol

Mae amserlen gynnal a chadw flynyddol yn cael ei pharatoi a'r gwaith yn cael ei ddyfarnu i gontractwyr yn dilyn proses dendro. Mae'r rhan fwyaf o'r rhannau o'r rhwydwaith yn cael eu torri ddwywaith yn ystod y tymor tyfu, y prif fynedfeydd a'r safleoedd amlwg ar gyrion anheddau yn cael 3 ymweliad.

**ii. Safleoedd a llwybr arfordir**: y prif nodau cynnal a chadw yw:
- cadw'r llwybrau yn glir o rwystrau
- gofalu bod arwyddion a chyfeirbwyntiau clir

Bydd amserlenni cynnal a chadw blynyddol yn cael eu paratoi ac yn gyffredinol maent yn cael eu dyfarnu i gontractwyr ar sail ad hoc. Yn aml mae'r gwaith o reoli llystyfiant yn digwydd fel rhan o dasgau rheoli cynefinoedd ehangach.

Ar rai safleoedd ategir at y defnydd o gontractwyr trwy waith a ddarperir gan wirfoddolwyr lleol neu gan bersonél ar gynlluniau gwaith/hyfforddi.

**iii. Pont y Bermo**: y prif nodau cynnal a chadw yw:
- cadw'r llwybr ar agor a heb rwystr
- trwsio'r canllawiau a gosod trawstiau newydd yn ôl y gofyn i sicrhau diogelwch y cyhoedd

Mae'r bont a'r llwybr ati yn cael eu harchwilio yn gyson. Gwneir gwaith arferol gan weithlu Uniongyrchol y Cyngor yn ôl y gofyn. Yn gyffredinol rhoddir gwaith mawr i gontractwyr rheilffordd ar y cyd â'r gwaith a wneir gan, a thrwy gytundeb â Network Rail.

**b. Cynnal a chadw ymatebol:**
Defnyddir yr arian sy'n weddill tuag at waith ymatebol fel ymdrin â choed peryglus, fandaliaeth neu ganlyniadau tywydd eithafol.

Nid yw'r arian prin yn caniatáu ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gynllunnir ar bontydd, waliau cynnal, systemau draenio ac arwynebeddau.

Mae unrhyw waith ychwanegol i ddiogelu, gwella neu uwchraddio'r cyfleusterau yn dibynnu ar dderbyn cymorth grant neu gefnogaeth arall.

**Gwybodaeth i'r cyhoedd**

Bydd deunydd i gynghori a chynorthwyo'r cyhoedd sy'n ymweld ar gael yn y mannau mynediad ar y Lonydd Glas a safleoedd a reolir. Mae'r wybodaeth yn cynnwys:

- Cod ymddygiad i ddefnyddwyr y Lonydd Glas
- Arweiniad a disgrifiad o'r llwybr - pellter, graddfeydd, arwyneb
- Bydd y prif lwybrau mewn safleoedd yn cael eu nodi ag arwyddion neu gyfeirbwyntiau i geisio atal defnyddio llwybrau anffurfiol.
- Bydd y Cod Cefn Gwlad yn cael ei arddangos lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

**Archwiliadau**
Cynhelir archwiliadau fel rhan o'r ymweliadau safle cyson neu wrth ymateb i gwynion neu adroddiadau gan y cyhoedd.

# Gorfodi Cyfraith Hawliau Tramwy Cyhoeddus

**Mae gan Gyngor Gwynedd a pherchnogion tir gyfrifoldebau o ran y rhwydwaith Hawliau Tramwy.**

## Cyngor Gwynedd

- **Sicrhau na fydd rhwystrau ar Hawliau Tramwy**
- **Cynnal yr arwyneb mewn cyflwr addas ar gyfer y defnydd a fwriadwyd iddo**
- **Cynnal a chadw rhai pontydd**
- **Gosod arwyddion a chyfeirbwyntiau i ddangos llwybrau**
- **Rhoi caniatâd i osod camfeydd a giatiau**
- **Yn cadw'r Map Swyddogol yn gyfredol**

## Tirfeddianwyr

- **Ni ddylent osod rhwystrau ar lwybrau nag atal pobl rhag eu defnyddio**
- **Cynnal y rhan fwyaf o gamfeydd a giatiau (gweler y polisi ar gategoreiddio)**
- **Cadw tyfiant ochrol i lawr a thyfiant sy'n tyfu dros y llwybr**
- **Ail osod llwybr ar draws caeau ar ôl troi neu blannu cnydau**
- **Ni ddylent droi llwybrau ar ymylon caeau**
- **Ni ddylent gadw anifeiliaid peryglus (gan gynnwys rhai teirw) ar lwybrau**

## Cyngor Gwynedd – Datganiad o fwriad

***Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i hawlio a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau hawliau tramwy cyhoeddus trwy fabwysiadu polisi teg a chadarn tuag at gynnal a chadw a gorfodi, gyda'r pwyslais ar gydweithredu pan ellir cyflawni hynny, ond gyda chefnogaeth camau cyfreithiol ffurfiol pan fydd hynny'n angenrheidiol.***

## Sut y byddwn ni'n gwneud hyn?

### 2.1. Diogelu Hawliau'r Cyhoedd

Bydd Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei ddyletswydd i hawlio a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau unrhyw briffordd y mae'n ofynnol iddyn nhw fel awdurdod priffyrdd wneud hynny dan Adran 130 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Ond bydd y flaenoriaeth a roddir i gynnal a chadw a chael gwared â rhwystrau o hawliau tramwy cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth i natur y broblem, a yw'n weithred ddiweddar, a chategori'r llwybr (cyfeirier at Atodiad 1).

Bydd rhagdybiaeth y bydd y Cyngor yn ceisio'r ateb ymarferol cyflymaf i broblemau ar lwybrau yng nghategorïau 1 a 2, trwy weithredu'n uniongyrchol os bydd angen. Wrth ymdrin ag achosion gorfodi ar lwybrau yng nghategorïau 3 a 4, rhoddir blaenoriaeth i achosion pan fydd un neu fwy o'r meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

1. Mae parhad y rhwystr yn creu risg iechyd a diogelwch annerbyniol;
2. Bydd datrys y rhwystr yn darparu rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus sylweddol well;
3. Derbyniwyd nifer sylweddol o gwynion dilys am y rhwystr gan amrywiaeth o ffynonellau annibynnol.

Gall rheolwyr tir gael eu hysbysu o’u hymrwymiadau cyn gynted ag y bydd unrhyw rwystr wedi ei nodi. Os na fydd eu cydweithrediad gwirfoddol i symud rhwystrau yn cael ei gynnig, gellir cymryd camau gorfodi addas, gall hyn gynnwys symud y rhwystr dan sylw ar unwaith, cyflwyno rhybudd statudol a/neu erlyn y rhai sy’n gyfrifol. Pan fydd hynny’n bosibl gall y Cyngor hefyd geisio adfer costau’r gweithredu gan yr unigolyn sy’n achosi’r rhwystr.

Y prif droseddau statudol sy’n berthnasol i Hawliau Tramwy Cyhoeddus yw:
***Deddf Priffyrdd 1980 adrannau 131(1)(b), 131(1)(c), 131(2), 131A, 132, 134, 137, 137ZA a gynhwyswyd gan CRoW, 137A, 148(c), 164, ac atodlen 12A.***

## 2.2. Brawychu neu ymddygiad bygythiol a fwriadwyd i atal pobl rhag defnyddio Hawl Tramwy Cyhoeddus

Yn dilyn unrhyw adroddiad o frawychu neu ymddygiad bygythiol bydd y Cyngor yn ceisio ymdrin ag unrhyw broblemau gwaelodol sydd wedi arwain at y sefyllfa. Rhoddir ystyriaeth i ba weithredu gorfodi y gellir ei gymryd a/neu a ddylai cwynion gael eu cyfeirio at yr heddlu.
***Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 adran 4 a Deddf Priffyrdd 1980 adran 137***

## 2.3. Arwyddion a hysbysiadau camarweiniol sy’n effeithio ar Hawl Tramwy Cyhoeddus

Yn dilyn adroddiad am arwydd camarweiniol a godwyd ar neu yn agos at Hawl Tramwy Cyhoeddus, gall rheolwyr tir gael eu hysbysu o’u hymrwymiadau dan Adran 132 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac Adran 57 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Gall y Cyngor ofyn i dirfeddianwyr symud unrhyw arwyddion neu hysbysiadau camarweiniol. Gall peidio gwneud hynny arwain at weld y Cyngor yn gweithredu yn uniongyrchol a/neu yn erlyn. Gall yr holl gostau rhesymol hefyd gael eu hawlio yn ôl pan fydd hynny’n bosibl
***Deddf Priffyrdd 1980 adran 132 a Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 adran 57***
***Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984 adran 69***

## 2.4. Rhwystrau a Llechfeddiant

Mae dyletswydd ar y Cyngor dan *gyfraith statudol* i symud pob rhwystr a llechfeddiant ar Hawl Tramwy Cyhoeddus. Mae ganddo bwerau amrywiol dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i gyflwyno rhybudd i unigolion sy’n gyfrifol am rwystrau ac i gymryd camau gorfodi eraill.
Rhaid i berchennog tir sy’n dymuno codi eitem newydd o ddodrefn ar draws Hawl Tramwy Cyhoeddus ar gyfer dibenion rheoli mynediad ac allanfa i dda byw, yn gyntaf wneud cais i’r Cyngor am ganiatâd dan Adran 147, Deddf Priffyrdd 1980. Bydd y Cyngor yn dewis y “dewis lleiaf rhwystrol”, h.y. bwlch, giât, camfa wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd wedi ymgynghori â’r Cyngor Cymuned a’r grwpiau defnyddwyr perthnasol. Rhaid i unrhyw ddodrefn newydd heb ganiatâd gael eu trin fel rhwystr.

Mae gan y Cyngor hefyd hawl dan *gyfraith gwlad* i symud unrhyw beth y mae yn ei gredu sy’n cyfateb i rwystr, neu lechfeddiant ar y briffordd gyhoeddus heb ymgynghori ag unrhyw un arall.
***Deddf Priffyrdd 1980 adran 130***

Bydd rheolwyr tir yn cael eu hysbysu o’u hymrwymiadau cyn gynted ag y bydd rhwystr yn cael ei ddynodi. Petaent yn peidio cyflawni eu dyletswydd gellir cymryd camau gorfodi addas a gellir ystyried erlyn y rhai sy’n troseddu dro ar ôl tro. Rhaid ail hawlio'r holl gostau rhesymol hefyd. (Mae rhwystrau yn cynnwys dodrefn heb ganiatâd).

Os dangosir bod llechfeddiant wedi digwydd, i fodloni’r Cyngor, ond nad yw’n effeithio yn ddiriaethol ar y llwybr na hawliau defnyddwyr, gall y Cyngor ystyried hyn fel *de minimis* ac ni

fydd raid gweithredu ymhellach. Ond, bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol yn cael ei rybuddio am y sefyllfa a chanlyniadau unrhyw lechfeddiant pellach.
***Deddf Priffyrdd adrannau 137 a 137ZA, 143, 148(c), 149.***

## 2.5. Gwrychoedd a choed gerllaw i Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod tirfeddianwyr a deiliaid tir gerllaw unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau dan Adran 136 ac 154 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Bydd peidio â gwneud hynny yn arwain at weld y Cyngor yn gweithredu i symud llystyfiant sy'n tyfu dros y llwybr, neu i sicrhau bod y tirfeddiannwr yn ei glirio. Pan fydd rhybudd ffurfiol yn cael ei gyflwyno gall yr holl gostau rhesymol hefyd gael eu hawlio yn ôl.
Y lleiafswm a argymhellir ar gyfer clirio o'r llawr ar gyfer llwybr troed yw 2.5 metr a 3.5 metr ar gyfer llwybr ceffyl.
***Deddf Priffyrdd 1980 adran 136 a 154***

## 2.6. Cynnal a chadw camfeydd a giatiau

Dyletswydd y tirfeddiannwr yw sicrhau bod unrhyw gamfeydd a giatiau yn cael eu cadw mewn cyflwr da. Dim ond hyd at sicrhau bod y tirfeddiannwr yn cadw at yr ymrwymiad hwn y mae dyletswydd y Cyngor yn ymestyn a darparu grant o 25% tuag at gost trwsio strwythurau o'r fath neu gael rhai newydd yn eu lle. Mae gan y Cyngor bŵer i ddarparu grant dewisol, a fydd fel arfer fel y disgrifir isod:
***Deddf Priffyrdd 1980 a 146,147***

***Categori 1.*** Bydd rhagdybiaeth y bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â 100% o gost y gwaith sy'n ofynnol i *gynnal* neu *gyfnewid* (yn unig) dodrefn sy'n bodoli wedi ymgynghori â'r tirfeddiannwr, ond y tirfeddiannwr sy'n parhau yn gyfrifol yn gyfreithiol am y gwaith. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn caniatáu ceisiadau am ddodrefn *ychwanegol*, a fydd beth bynnag yn cael eu hariannu yn llawn gan y tirfeddiannwr. Ni fydd camfa ychwanegol na dodrefn rhwystrol arall yn cael eu caniatáu fel arfer.

***Categori 2.*** Bydd rhagdybiaeth y bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â 100% o gost y gwaith sy'n ofynnol i *gynnal* neu *gyfnewid* (yn unig) y dodrefn ar ôl ymgynghori â'r tirfeddiannwr, ond mae'r tirfeddiannwr yn parhau yn gyfrifol yn gyfreithiol am y gwaith. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn caniatáu ceisiadau am ddodrefn *ychwanegol*, a fydd beth bynnag yn cael eu hariannu yn llawn gan y tirfeddiannwr. Ni fydd camfa ychwanegol na dodrefn rhwystrol arall yn cael eu caniatáu fel arfer.

***Categori 3 a 4.*** Ar gyfer dodrefn sy'n bodoli, fel arfer bydd Cyngor Gwynedd yn cyflenwi deunyddiau i dirfeddianwyr am ddim iddyn nhw eu codi ar eu cost eu hunain, ond gall swyddogion ddewis trefnu i'w codi hefyd, gan ddibynnau ar amgylchiadau. Ni fydd unrhyw ddodrefn sy'n fwy rhwystrol na'r rhai a ddefnyddiwyd hyd yn hyn yn cael eu caniatáu. Mewn achos o gais am ddodrefn ychwanegol, gall y dull mynediad lleiaf rhwystrol gael ei ganiatáu, a'i ariannu yn llwyr gan y tirfeddiannwr gyda'r rhagdybiaeth na ddefnyddir camfeydd ysgol heblaw pan na fydd ateb arall yn ymarferol, ac mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

Wrth ystyried gosod neu gyfnewid giatiau neu gamfeydd newydd, bydd Cyngor Gwynedd yn ceisio'r dewis lleiaf rhwystrol yn unol â BS 5709:2006 sef bwlch, yna giât, yna camfa; ni fydd dodrefn cyfnewid fydd yn fwy rhwystrol o ran natur yn cael eu caniatáu. Pan fydd y Cyngor yn

gofyn am ddewis llai rhwystrol bydd yn ceisio talu am unrhyw gostau ychwanegol (e.e. pan fydd giât mochyn yn cael ei gosod yn lle camfa) naill ai o ffynonellau ariannu mewnol neu allanol.
*Deddf Priffyrdd 1980 a145 & 175A (a gynhwyswyd gan Ddeddf Pobl Anabl 1981)*

Er mwyn diogelu cymeriad yr ardal, bydd camfeydd carreg yn cael eu cynnal gan Gyngor Gwynedd fel arfer, ond er mwyn gwella mynediad, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y tirfeddiannwr, gellir darparu giât yn ychwanegol neu i gyfnewid â hi. Dim ond os bydd y llwybr yn glir o rwystrau fel arall y bydd camfeydd carreg yn cael eu cynnal a'u cadw ar lwybrau Categori 3 a 4 a bod cwynion yn cael eu derbyn.

Yr amgylchiadau pan fydd y Cyngor yn gallu rhoi caniatâd i godi camfeydd/giatiau newydd yw bod angen y strwythurau ar gyfer dibenion rheoli stoc, (Adran 147 HA 1980). Gall atalfeydd hefyd gael eu cynnal a'u cadw gan y Cyngor dan Adrannau 115B a 66 Deddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 70 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000).
*Deddf Priffyrdd 1980 adrannau 66 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 adran 70) 115b a 147.*

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r grant dewisol yn ôl oddi ar dirfeddianwyr sy'n peidio cydweithredu neu sy'n atal yr Hawl Tramwy Cyhoeddus.
*Deddf Priffyrdd 1980 a146*

## 2.7. Troi a Chnydau

Mae Deddf Hawliau Tramwy 1990, yn nodi na chaiff tirfeddianwyr na deiliaid tir droi nag amharu ar arwyneb llwybr troed neu lwybr ceffyl sy'n rhedeg ar hyd ymyl cae. Rhaid iddynt hefyd osgoi troi llwybr ar draws cae pan fydd hynny'n bosibl. Bydd Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio ag Adran 134 ac Adran 137A Deddf Priffyrdd 1980. Pan fydd llwybr troed neu lwybr ceffyl yn cael ei droi, rhaid ei ailosod cyn pen 14 diwrnod o'r adeg pan amharwyd gyntaf ar yr arwyneb, a 24 awr ar gyfer unrhyw amhariad arall fel llyfnu a drilio. Ni chaniateir troi nac amharu ar arwyneb Cilffordd sy'n Agored i Bob Traffig, Cilffordd Gyfyngedig neu Ffordd dan unrhyw amgylchiadau.

Pan fydd cnwd (ar wahân i laswellt) wedi ei blannu neu ei hau ar dir y mae llwybr troed neu lwybr ceffyl yn ei groesi a hynny yn ei wneud yn anghyfleus, mae dyletswydd ar y deiliad i sicrhau bod llinell yr hawl tramwy ar y llawr yn cael ei ddangos i ddim llai na'r lleiafswm lled a nodir isod:

Os yw lled y ffordd wedi ei brofi e.e. trwy ei gynnwys yn y datganiad sy'n cyd-fynd â'r Map Swyddogol, y lled hwnnw yw'r lleiafswm lled. Os nad yw wedi ei brofi, y lleiafswm lled yw:

- llwybr troed ar draws cae 1.0m.
- llwybr troed ar dalar 1.5m.
- llwybr ceffyl ar draws cae 2m.
- llwybr ceffyl ar dalar neu lwybr cerbyd (boed ar draws cau neu dalar) 3 metr.

Yn ychwanegol, mae'n ddyletswydd ar y deiliad i atal y cnwd rhag lledfeddiannu y lled hwnnw trwy gydol y tymor tyfu.

Fel arfer bydd y Cyngor yn gweithredu yn uniongyrchol i dynnu cnydau neu i ailosod llwybrau pan fydd tirfeddianwyr wedi methu cyflawni y ddyletswydd a osodir arnynt gan Adran 134 ac Adran 137A o Ddeddf Priffyrdd 1980 . Gall y camau gorfodi priodol sydd yn Neddf Priffyrdd 1980 gael eu dilyn neu gall y Cyngor weithredu dan ei bwerau *cyfraith gwlad*. Gellir rhoi ystyriaeth hefyd i erlyn troseddwyr am yr eildro. Gall yr holl gostau rhesymol gael eu hawlio yn ôl hefyd. Os dangosir, i fodloni'r Cyngor, bod amharu wedi digwydd, ond nad yw'n effeithio'n

ddiriaethol ar y llwybr na hawliau'r defnyddwyr, a bod llwybr arall cyfleus wedi ei ddarparu, gall y Cyngor ystyried bod hyn yn dderbyniol a pheidio cymryd unrhyw gamau eraill.
***Deddf Priffyrdd 1980 adan 134 a 137A***

## 2.8. Y Cynllun Taliad Sengl, Amaethyddiaeth Dda a Chyflwr Amgylcheddol

Rhaid cydymffurfio â'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol yn ymwneud â Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n bodoli a thir a ddiffinnir fel tir agored dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad Hawliau Tramwy 2000. Bydd pob trosedd o beidio cydymffurfio ag ymrwymiadau dan Reoliad Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chynlluniau Cymorth (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004 - Rhif 3280 (W284) ac fel y'i diwygiwyd, yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Erthyglau 9 (a) ac (e) o Reoliad y Comisiwn Ewropeaidd (EC) Rhif 796/2004, yn darparu yn benodol ar gyfer sefydlu system o reoli trawsgydymffurfio, sy'n cynnwys "rhannu gwybodaeth angenrheidiol rhwng yr asiantaethau sy'n talu a'r awdurdodau rheoli cymwys".
***'Single Payment Scheme Cross Compliance Handbook for England 2005 Edition' RPA a defra***

## 2.9. Teirw ac anifeiliaid peryglus

Gall rheolwyr tir gael eu hysbysu o'u hymrwymiadau dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 adran 59, yn dilyn unrhyw adroddiad.
Yn gyffredinol rhaid peidio cadw teirw mewn cae y mae Hawl Tramwy Cyhoeddus yn ei groesi. Yr eithriadau yw:-

1) pan fyddant dan 10 mis oed
2) pan na fyddant o frid llaeth cydnabyddedig (y bridiau llaeth cydnabyddedig yw Ayrshire, Friesian Prydeinig, Holstein Prydeinig, Dairy Shorthorn, Guernsey, Jersey a Kerry) a gwartheg a heffrod gyda nhw.

Felly mae unrhyw darw dros 10 mis oed yn cael ei wahardd ar ei ben ei hun, ac unrhyw darw felly sydd o frid llaeth cydnabyddedig.

Gellir ystyried erlyn troseddwyr am yr eildro a hawlio'r holl gostau rhesymol.
***Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 adran 59***

Mae ceidwad unrhyw anifail, gan gynnwys ceffylau a chŵn yn atebol yn gaeth am iawndal os bydd yn anafu unigolyn arall.
***Deddf Anifeiliaid 1971, adran 2 a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974***

## 2.10. Cŵn sy'n brawychu

Mae'n drosedd cadw ci peryglus neu sy'n brawychu ar hawl tramwy cyhoeddus. Gall hefyd gael ei ystyried yn 'niwsans cyhoeddus'. Os yw allan o reolaeth mewn lle cyhoeddus mae'n drosedd dan y Ddeddf Cŵn Peryglus 1991.

Bydd y Cyngor yn gofyn i'r tirfeddiannwr neu ddeiliad y tir i weithredu fel na fydd y ci bellach yn atal aelodau o'r cyhoedd rhag defnyddio'r hawl tramwy ac yn ystyried unrhyw gamau gweithredu pellach y gellir eu cymryd. Gall y Cyngor hefyd hysbysu'r heddlu ac yn dweud wrth achwynwyr am hysbysu'r heddlu yn uniongyrchol.
***Deddf niwsans cyhoeddus dan gyfraith wladol a Deddf Cŵn Peryglus 1991***

## 2.11. Ffensys trydan a weiren bigog wrth ymyl Hawl Tramwy Cyhoeddus

Os, ym marn y Cyngor, bod unrhyw ffens drydan neu weiren bigog ar hyd hawl tramwy cyhoeddus yn berygl neu niwsans, yna gall y Cyngor ofyn i'r perchennog wneud y ffens yn ddiogel i aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r llwybr. Os bydd y perchennog yn gwrthod neu na fydd yn gwneud hynny, gall y Cyngor gyflwyno rhybudd cyfreithiol yn gofyn i'r perchennog symud ffynhonnell y perygl mewn amser penodedig; mae hawl i apelio i'r Llys Ynadon. Bydd peidio cydymffurfio â'r Rhybudd yn gallu arwain at weld y Cyngor yn cymryd camau mewn Llys.

Fel arfer da ac fel sy'n cael ei argymell gan Safonau Prydeinig, dylai tirfeddianwyr wneud yn siŵr nad oes weiren bigog na ffens drydan o fewn 1 metr o unrhyw giât neu gamfa y rhoddwyd caniatâd iddi (nag o fewn y gofod y mae'n symud ynddo fel arfer) i osgoi hawliadau posibl am anafiadau gan ddefnyddwyr.
***Deddf Priffyrdd 1980 adrannau 148(c) a 164 a Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1957***

## 2.12. Drylliau ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Yn dilyn unrhyw adroddiad gall tirfeddianwyr a deiliaid gael rhybudd o'u hymrwymiadau dan adran 161 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac adran 19 Deddf Drylliau 1968 i sicrhau na fydd unrhyw niwsans cyhoeddus yn digwydd.

Gall y Cyngor, pan fydd yn bryderus am ddiogelwch y cyhoedd sy'n defnyddio hawl tramwy, gyfeirio cwynion at yr heddlu ac ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau gorfodi eraill.
***Deddf Priffyrdd 1980 adran 161 a Deddf Drylliau 1968 adran 19***

## 2.13. Datblygu

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar ddatblygiadau arfaethedig ac yn ystyried presenoldeb Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi llawlyfr "Datblygu a Hawliau Tramwy Cyhoeddus", sydd ar gael ar gais. Dylid dilyn y canllawiau a roddir yno, o beidio gwneud hynny, gall y Cyngor gymryd camau gorfodi addas fel y disgrifir uchod.

## 2.14. Diogelu Hunaniaeth

Ni fydd enwau a chyfeiriadau aelodau o'r cyhoedd sy'n rhoi adroddiad am rwystrau ac anawsterau eraill yn gyfrinachol yn cael eu datgelu heb eu caniatâd oni bai bod gofyn cyfreithiol i'r Cyngor wneud hynny

## 2.15 Datblygiadau yn y Dyfodol

Bydd Cyngor Gwynedd yn cadw ei bolisi gorfodi dan adolygiad cyson, gan wneud y newidiadau gofynnol oherwydd newidiadau yn y gyfraith neu rai sy'n dod yn angenrheidiol yn sgil eu profiad.

**Pan fydd gan y Cyngor bolisi fel sy'n cael ei amlinellu uchod bydd yn ystyried mewn achosion priodol a ellid gwneud eithriad yn seiliedig ar deilyngdod yr achos.**

## Atodiad 1 – Categorïau Llwybrau

| Categori | |
|---|---|
| 1 | Llwybrau sy'n hwyluso symudiad pobl. Bydd y rhain fel arfer yn cael defnydd sylweddol neu'n ffurfio cyswllt mewn trefi, pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafnidiaeth cyhoeddus, meysydd parcio, ac atyniadau hamdden.<br><br>Llwybrau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Gwynedd, neu'r Awdurdodau Iechyd, ynghyd â llwybrau trefol a ddefnyddir yn aml a llwybrau rhwng trefi yn bennaf gydag arwyneb caled, gan gynnwys llwybrau a uwchraddiwyd yn "Mynediad i Bawb". Dim camfeydd heblaw mewn amgylchiadau eithriadol mewn ardaloedd gwledig iawn, lle gwneir pob ymdrech i gael gwared arnynt cyn gynted ag y byddo'n ymarferol. |
| 2 | Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pleser gan gynnwys llwybrau o amgylch cymunedau, teithiau cylchol, mynediad at draethau neu lwybrau a hyrwyddir.<br><br>Llwybrau sydd wedi treulio, heb arwyneb wedi ei greu o angenrheidrwydd, llwybrau a hyrwyddir gan grwpiau Cymunedol os nad ydynt wedi eu cynnwys yng Nghategori 1. Ychydig iawn o gamfeydd gyda'r rhagdybiaeth y byddant yn cael eu newid yn giatiau mewn amser pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol. |
| 3 | Llwybrau, a dim ond defnydd achlysurol arnynt, ond er bod llai o ddefnydd, yn ffurfio cyswllt pwysig rhwng y llwybrau yng nghategorïau 1 a 2 neu rhwng cymunedau lle mae ychydig iawn i'ch annog i gerdded ar hyn o bryd. Gall y rhain gynnwys dolenni posibl rhwng cymunedau.<br><br>Llwybrau llai eu defnydd sy'n creu dolenni defnyddiol neu ddolenni posibl. |
| 4 | Llwybr heb unrhyw fudd na photensial amlwg lle mae llwybr arall rhesymol a chyfleus ar gael ar lwybr categori uwch.<br><br>Llwybrau gydag anghysonder hysbys ar y Map Swyddogol.<br><br>Llwybrau cyfochrog iawn, lle mae'r llwybrau hyn yn ddewis llai atyniadol, neu lwybrau cul-de-sac gydag ychydig iawn neu ddim potensial ar gyfer ffurfio cyswllt ymarferol â mynediad arall. |

**Atodiad 2 – Gweithdrefn Gyffredinol**

Wrth weithredu ar unrhyw achos gorfodi, bydd y Cyngor yn dilyn proses deg a rhesymol i geisio cael gwared ar rwystrau, gyda'r nod o ddatrys y broblem cyn gynted ag y gellir. Bydd y dilyniant canlynol o gamau yn cael ei fabwysiadu:

i) hysbysu
ii) rhybudd ysgrifenedig
iii) rhybudd gorfodi

| |
|---|
| a) gyda gweithredu uniongyrchol wedyn i gael gwared ar y rhwystr ac adfer unrhyw gostau rhesymol neu, |
| b) os nad yw hyn yn cael ei ganiatáu dan y gyfraith ewch i gamau iv) neu v) |

iv) rhybudd cyfreithiol
v) erlyn

Bydd archwilio rhwystrau a'r camau cyntaf o ran rhoi hysbysiad a rhybudd yn dilyn proses y cytunwyd arni ac a nodir yn Atodiad 3.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Rhybudd Cyfreithiol Swyddogol pan fydd y broses o archwilio a hysbysu yn methu a bod y rhwystr yn parhau. Ni fydd y Cyngor yn cymryd unrhyw gamau pellach pan fydd y tirfeddiannwr yn cytuno ar rybudd o'r fath ac yn clirio'r rhwystr. Bydd y Cyngor yn ystyried defnyddio pwerau erlyn pan fydd y tirfeddiannwr yn gwrthod y rhybudd, ac yn ystyried a yw hyn er budd y cyhoedd.

Bydd y weithdrefn ar gyfer erlyn yn dilyn proses y cytunwyd arni fel sy'n cael ei nodi yn Atodiad 4.

**Atodiad 3 – Proses ar gyfer arolygu a hysbysu**

1. Wedi adnabod rhwystr, cysylltir â pherchennog y tir neu ddeiliad y tir ar lafar cyn pen 10 diwrnod gwaith, *a byddant yn cael cyfnod o rhwng 5 a 28 diwrnod i symud y rhwystr.*

2. Bydd cyfnod y rhybudd a roddir i symud y rhwystr yn gymesur o ran natur a graddfa (*e.e. bydd yn ofynnol i giât wedi ei chloi gael ei hagor cyn pen 5 diwrnod,* tra byddai gosod giât newydd/giât yn lle hen un yn cael 28 diwrnod). Bydd y gwaith o bennu'r cyfnod hwn o rybudd yn cael ei wneud mewn modd teg a rhesymol gan y swyddog sy'n archwilio.

3. Gall y safle wedyn gael ei ail-archwilio cyn pen 10 diwrnod arall o'r dyddiad y daeth y cyfnod rhybudd i ben i weld a symudwyd y rhwystr.

4. Os bydd y rhwystr yn cael ei glirio wedyn, anfonir llythyr i ddiolch i'r tirfeddiannwr neu ddeiliad y tir am ei weithred brydlon ac yn gofyn am sicrwydd na fydd yn digwydd eto.

5. Os na fydd y rhwystr yn cael ei glirio, bydd llythyr ynghyd â Rhybudd Cyfreithiol yn cael ei anfon yn nodi natur y drosedd ac yn tanlinellu'r amserlen ar gyfer symud y rhwystr.

6. Bydd Hysbysiadau Statudol yn rhoi'r amserlen penodedig dynnaf i symud y rhwystr. Ond, gellir arfer disgresiwn, gan ddibynnu ar natur y rhwystr, ac fe ellir ei nodi yn y llythyr sy'n mynd gyda'r hysbysiad yn dilyn asesiad gan y Rheolwr Hawliau Tramwy wedi ymgynghori â'r swyddog archwilio. Bydd adeilad neu strwythur ar draws yr Hawl Tramwy Cyhoeddus, er enghraifft, yn cael rhagor o amser i'w dynnu na rhwystr llai y gellid ei symud yn gyflym.

7. Bydd y gwaith o ail-archwilio yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl yr amserlen a bennwyd ar gyfer symud y rhwystr.

8. Os bydd y rhwystr yn cael ei glirio anfonir llythyr at y tirfeddiannwr, yn ôl cam 4 uchod, ac os na, bydd y mater yn symud i gamau uniongyrchol ac adfer costau gan y Cyngor neu at rybudd cyfreithiol ac erlyniad posibl fel yn y weithdrefn a nodir yn Atodiad 4.

**Atodiad 4 – Proses ar gyfer Gweithdrefnau Erlyn**

1. Gall y Cyngor gyhoeddi Rhybudd Cyfreithiol Swyddogol a gyflwynir gan y Rheolwr Hawliau Tramwy pan fydd y broses o archwilio a hysbysu yn methu ac y bydd y rhwystr yn parhau. Gellir rhoi cyfarwyddiadau i'r achos gael ei ystyried ar gyfer erlyn, a chesglir ffeil achos yn cynnwys copïau o'r dogfennau sy'n cofnodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn.

2. Bydd y cyfreithiwr yn cynnal adolygiad o'r ffeil a'r gyfraith yn ymwneud â'r achos. Bydd trosedd(au) posibl yn cael eu dynodi a rhoddir adroddiad arnynt i'r cleient. Bydd y Rheolwr Hawliau Tramwy yn cymryd cyngor cyfreithiol a ddylid defnyddio pwerau erlyn. Os bydd yr erlyniad yn symud ymlaen yna cymerir y camau dilynol, 3, 4, 5 a 6.

3. Anfonir llythyr at y diffynnydd posibl yn cyflwyno hysbysiad. Cymerir prawf o dystiolaeth gan dystion.

4. Bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei osod yn y Llys Ynadon. Bydd gŵys a thystiolaeth yn cael eu cyflwyno i'r diffynnydd.

5. Mynychu'r Llys. Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog bydd yr achos yn cael ei drin trwy gyflwyno'r ffeithiau, lliniariad gan y diffynnydd a phenderfyniad ar y gosb gan yr Ynadon. Os bydd yn pledio'n ddieuog bydd yr achos yn cael ei ohirio i Wrandawiad Rheoli Achos pan fydd y materion yn cael eu datgelu rhwng y partïon, y tystion yn cael eu rhestru, yr amcangyfrif o amser yn cael ei gytuno a dyddiad yr achos yn cael ei bennu.

6. Treial. Rhagwelir y byddai treial un diwrnod yn cael ei drin yn fewnol ac y byddai cwnsler yn cael ei benodi ar gyfer treialon maith.

## Gweithdrefn a Pholisi ar Gyfer Gorchmynion Diwygio Map Swyddogol

### Cyflwyniad

Dyfeisiwyd y polisi hwn gan ystyried Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, yn arbennig felly Adran 53 ac Atodlen 14. Rhoddir cyfarwyddyd ychwanegol yng Nghylchlythyr 5/93 y Swyddfa Gymreig.

### Cefndir

Mae'r Map a'r Datganiad Swyddogol yn gofnod pwysig iawn o Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu dal a'u cynnal gan Adran Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd. Gall y Datganiad, sy'n dod gyda'r Map Swyddogol, gynnwys disgrifiad o safle a lled y llwybr neu unrhyw gyfyngiad neu amod sy'n effeithio ar yr hawl tramwy. Gyda'i gilydd, maent yn cynnig tystiolaeth bendant o ran bodolaeth a statws yr hawl tramwy cyhoeddus a ddangosir.

Dan ddarpariaethau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae gan Gyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Syrfeo ddyletswydd i adolygu'r Map a'r Datganiad yn barhaus.

Mae adolygu parhaus, yn ei hanfod, yn golygu, pan ddaw tystiolaeth ar gael bod camgymeriad, gwall neu rywbeth heb ei gynnwys ar y Map a'r Datganiad, y dylai'r Map a'r Datganiad gael eu haddasu cyn gynted ag sy'n rhesymol o ymarferol trwy gyfrwng gorchymyn cyfreithiol (a elwir yn Orchymyn Diwygio Map Swyddogol).

Felly, gall Awdurdod Syrfeo wneud Gorchymyn Diwygio pan fydd yn darganfod tystiolaeth newydd sy'n gofyn am i'r map gael ei newid. Ond yn ychwanegol at hyn, gall unrhyw unigolyn wneud cais at yr Awdurdod Syrfeo am wneud Gorchymyn Diwygio. Gall tirfeddianwyr, er enghraifft, gredu nad yw llwybr a gofnodir ar y Map Swyddogol yn un cyhoeddus, neu fod hawl tramwy cyhoeddus yn cael ei ddangos ar y llinell anghywir neu fod ganddo'r statws anghywir. Yn yr un modd, yn aml mae achosion pan fydd llwybrau nad ydynt wedi eu cofnodi ar y Map Swyddogol yn bodoli ar y ddaear mewn gwirionedd, ac fe allant fod wedi cael eu defnyddio yn agored a'u mwynhau gan y cyhoedd am amser sylweddol. Mewn achosion o'r fath efallai bod sail i'r llwybr hwnnw gael ei ychwanegu at y cofnod cyfreithiol, os bydd hawliau cyhoeddus wedi eu sefydlu.

Pwy bynnag sy'n ceisio Gorchymyn Diwygio, mae'r un egwyddorion sylfaenol yn berthnasol. Y pwysicaf o'r rhain yw'r angen am dystiolaeth ffeithiol ac a oes hawliau cyhoeddus yn bodoli neu beidio. Mae dau brif fath o dystiolaeth y dylai ymgeiswyr eu ceisio wrth wneud cais – *tystiolaeth o ddefnydd* a/neu *dystiolaeth ddogfennol* fel mapiau hanesyddol a chofnodion. Bydd raid i'r dystiolaeth fod ar seiliau cadarn ac yn argyhoeddiadol – nid yw honni bod hawl tramwy yn bodoli heb dystiolaeth i gefnogi hynny yn debygol o arwain at weld Gorchymyn yn cael ei wneud. Mae'r ymarfer cyfan yn ymwneud â datrys ansicrwydd am ba hawliau sy'n bodoli nid pa hawliau sy'n ddymunol o unrhyw safbwynt penodol. Gweler Atodiad 3 am restr o'r math o dystiolaeth sy'n angenrheidiol.

Er mwyn gweld y canlyniadau cywir, yn gyson â'r ffeithiau a'r ddeddfwriaeth, mae swyddogion sy'n archwilio honiadau o'r fath yn cynnal ymchwil trylwyr a manwl i'r dystiolaeth berthnasol, ym mhob achos, gan wneud ymrwymiad sylweddol o ran amser ac adnoddau.

Er nad yw'n cael ei ddatgan yn benodol, mae'r ddeddfwriaeth yn rhagweld y bydd hawliadau yn cael eu penderfynu cyn pen 12 mis. Mae'n gwneud hyn trwy ddarparu y gall ymgeisydd wneud

cais i'r Arolygaeth Gynllunio am gyfarwyddyd yn gofyn i'r awdurdod lleol benderfynu ar hawliad os na fydd wedi gwneud hynny cyn pen 12 mis o ddyddiad derbyn y cais wedi ei gwblhau. Bydd yr Arolygaeth Gynllunio yn ystyried polisi'r Cyngor o ran ymdrin â Gorchmynion Diwygio wrth ystyried ceisiadau am gyfarwyddyd.

Oherwydd cymhlethdod ymchwilio i geisiadau o'r fath, eir dros y cyfnod hwn o 12 mis yn aml. Yn ychwanegol, mae ôl-groniad o waith Map Swyddogol a gorchymyn cyfreithiol arall yn wynebu Adran Hawliau Tramwy'r Cyngor. O ganlyniad, mae nifer o geisiadau sydd wedi eu derbyn ond heb eu penderfynu nifer o flynyddoedd wedi eu derbyn.

Ystyriaeth faterol arall yw Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Er mwyn rhoi peth sicrwydd i ddefnyddwyr cefn gwlad a thirfeddianwyr am yr hawliau sy'n bodoli, cyflwynwyd dyddiad terfynol o 1 Ionawr, 2026 ar ôl hynny ni ellir gwneud cais i lwybrau troed, llwybrau ceffyl neu hawliau uwch gael eu cynnwys ar Fap Swyddogol yn seiliedig yn unig ar dystiolaeth hanesyddol ddogfennol (gelwir tystiolaeth cyn 1949 yn dystiolaeth hanesyddol). Felly, ar ôl y dyddiad hwn ni fydd yn bosibl i hawlio hawl ar sail tystiolaeth defnyddwyr. Ond, rhagwelir y bydd yr ôl-groniad yn tyfu oherwydd cynnydd a ragwelir mewn ceisiadau Gorchymyn Diwygio wrth i 2026 nesu.

Fe wnaeth Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ddwyn pob hawl i gerbydau a yrrir gan fodur i ben oni bai bod y ffordd i) eisoes yn cael ei dangos ar Fap a Datganiad Swyddogol fel Cilffordd sy'n Agored i Bob Traffig neu ii) yn agored i un o'r nifer o eithriadau a gynhwysir yn Adrannau 67(2) neu 67(3). Un o'r eithriadau hyn yw os bydd yr hawl i ddefnyddio cerbydau â modur wedi dod i fodolaeth cyn 1930. Un arall fyddai os mai'r prif ddefnydd yn y cyfnod o 5 mlynedd cyn 11 Mai, 2006 oedd gan gerbydau â modur.

## 3.0 Y Polisi

### 3.1 Ffurf y Cais

Yn unol â pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 14 o Ddeddf 1981 (gweler Atodiad 1), bydd yr holl geisiadau yn cael eu gwneud yn y ffurf penodedig a bydd map gyda nhw ar raddfa o ddim llai na 1:25000 yn dangos y llwybr neu lwybrau y mae'r cais yn ymwneud â nhw.

Bydd yn cynnwys copïau o'r holl dystiolaeth ddogfennol (gan gynnwys datganiadau tystion) y mae'r ymgeisydd yn dymuno eu cynnig i gefnogi'r cais, hyd yn oed os yw'r dogfennau eisoes ym meddiant y Cyngor.

Bydd yr ymgeisydd yn rhoi rhybudd i bob perchennog neu ddeiliad tir sy'n cael ei gynnwys yn y cais. Bydd y rhybudd yn nodi bod y cais wedi ei wneud. Os na fydd yr ymgeisydd yn gwybod enw a chyfeiriad y perchennog neu ddeiliaid, bydd yn gwneud ymholiadau rhesymol. Os na fydd yr ymholiadau rhesymol yn darganfod enw a chyfeiriad y perchennog neu'r deiliaid, bydd yr ymgeisydd yn hysbysu'r Cyngor o'r ffaith hon ac yn disgrifio'r ymholiadau a wnaed. Yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, gall y Cyngor ganiatáu i'r ymgeisydd gyflwyno'r rhybudd trwy ei gyfeirio at "y Perchennog" neu "y Deiliad", fel sy'n briodol, a'i osod ar wrthrych amlwg neu wrthrychau amlwg ar y tir. Pan fydd y rhybudd wedi ei roi i'r perchennog neu ddeiliad bydd yr ymgeisydd yn tystio hynny i'r Cyngor yn y ffurf penodedig.

Bydd y Cyngor yn darparu'r holl ddogfennau angenrheidiol i alluogi'r cais i gael ei wneud yn y ffurf penodedig.

Nid yw nifer y datganiadau tystiolaeth y mae'n rhaid i ymgeisydd eu cyflwyno wedi cael ei nodi yn y ddeddfwriaeth berthnasol, er bod Cyngor Gwynedd yn gyffredinol yn ystyried 7 datganiad fel y nifer dymunol.

Ni fydd y Cyngor yn ymchwilio i'r cais nes bydd yr holl gamau cychwynnol yma wedi eu cyflawni. Bydd unrhyw gais nad yw yn y ffurf penodedig gyda chopïau o'r dystiolaeth i gefnogi hynny, fel y nodir ym mharagraffau 1 a 2 o Atodlen 14, yn cael eu dychwelyd at yr ymgeisydd fel arfer gydag esboniad o'r diffygion ffurfiol.

### 3.2 Cofrestr o geisiadau Gorchymyn Diwygio Map Swyddogol

Cyn pen 28 diwrnod o dderbyn cais dilys, bydd y Cyngor yn cofnodi'r cais ar ei gofrestr o hawliadau Gorchymyn Diwygio y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei chadw a'i chynnal dan Adran 53B o Ddeddf 1981.

### 3.3 Blaenoriaeth ar gyfer ymdrin â cheisiadau

Bydd y Cyngor yn pennu cais dilys cyn gynted ag sy'n bosibl a bydd yn ceisio gwneud hynny cyn pen 12 mis o'i dderbyn.

Fel arfer bydd ceisiadau Gorchymyn Diwygio yn cael eu hasesu gan yr Adain Hawliau Tramwy Cyhoeddus a rhoddir blaenoriaeth gan ddilyn y meini prawf canlynol:

(i) defnydd da o adnoddau cyhoeddus

(ii) graddfa'r fantais i'r cyhoedd
(iii) rhwystro'r llwybr
(iv) y tebygolrwydd y bydd y tir y mae'r llwybr yn rhedeg drosto yn cael ei ddatblygu
(v) eglurder y dystiolaeth a gyflwynwyd
(vi) pan fydd cyfran sylweddol o'r tystion o blith y defnyddwyr yn henoed
(vii) hwylustod er mwyn hwyluso datrys hawliau tramwy
(viii) argaeledd llwybrau eraill ger llaw sy'n cynnig profiad tebyg neu well i'r defnyddiwr na'r llwybr a hawlir.

## 3.4 Ystyried y dystiolaeth

Os bydd cais yn bodloni'r gofynion ffurfiol ond bod ymchwiliad byr o'r dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r cais yn dangos nad oes gobaith rhesymol y bydd yn llwyddo ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yna, fel arfer, bydd y cais yn cael ei wrthod gydag esboniad o'r dystiolaeth ychwanegol fyddai'n ofynnol i'r cais gael ei ailystyried.

Pan fydd tystiolaeth ddiymwad nad oedd gan y tirfeddiannwr unrhyw fwriad yn ystod cyfnod yr hawliad i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'r llwybr, er enghraifft trwy i'r tirfeddiannwr gydymffurfio ag Adran 31(6) o Ddeddf Priffyrdd 1980, yna dylai'r penderfyniad gael ei wneud nad yw'r hawl tramwy fel sy'n cael ei hawlio yn bodoli a bydd y cais felly yn cael ei wrthod.

Ond os oes gan gais obaith rhesymol o lwyddo ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, bydd swyddogion yn ymchwilio i'r dystiolaeth, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth berthnasol arall sydd ar gael i'r Awdurdod.

Wrth ymchwilio i'r cais, cynhelir ymgynghoriad cychwynnol gyda'r Cyngor Cymuned/Tref a sefydliadau perthnasol eraill (e.e. Cymdeithas y Cerddwyr, Aelod Lleol).

Bydd crynodeb o'r dystiolaeth yn y cais yn cael ei gyflwyno i'r holl "berchnogion" neu "ddeiliaid" yn gofyn a oes ganddynt ddymuniad i wrthwynebu neu wneud unrhyw gyflwyniad parthed y cais. Caniateir amser rhesymol ar gyfer gwneud unrhyw gyflwyniadau neu wrthwynebiad.

Os bydd tystiolaeth y defnyddwyr yn cael ei gadarnhau gan dystiolaeth arall, efallai y bydd angen cynnal cyfweliadau gan swyddogion. Ond, os oes tystiolaeth yn bwrw amheuaeth am dystiolaeth y defnyddiwr (fel tystiolaeth i'r gwrthwyneb gan berchennog y tir) yna gall fod yn addas cynnal cyfweliadau ar gyfer y tirfeddiannwr a detholiad o'r tystion o blith y defnyddwyr gan swyddog i bennu a ddylai'r Awdurdod symud ymlaen a'r cais.

## 3.5 Penderfynu ar y cais

Wedi ystyried yr holl dystiolaeth a'r cyflwyniadau a wnaed, bydd adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â Chynllun Dirprwyo Hawliau Tramwy'r Cyngor (gweler Atodiad 2).

Pan fydd y Cyngor wedi penderfynu ar y cais, bydd yr ymgeisydd a'r tirfeddiannwr neu ddeiliaid y cyflwynwyd y Rhybudd Cais iddynt yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu gwrthod y cais a pheidio gwneud Gorchymyn, mae gan yr ymgeisydd 28 diwrnod o gyflwyno'r Rhybudd Penderfyniad i apelio at yr Arolygaeth Gynllunio, a fydd yn penodi Arolygydd i ystyried yr apêl.

Os, ar ôl 28 diwrnod, na wneir apêl, gellir cau'r ffeil.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu y dylid gwneud Gorchymyn Diwygio Map Swyddogol, bydd y swyddogion, cyn gynted ag sy'n rhesymol o ymarferol, yn gweithredu'r penderfyniad hwn.

### 3.6 Cyhoeddi'r Gorchymyn Diwygio Map Swyddogol

Os bydd y Cyngor yn penderfynu caniatáu'r cais, bydd Gorchymyn yn cael ei wneud a'i gyhoeddi yn y papur newydd lleol a'i osod ar y safle. Bydd perchnogion a deiliaid y tir dan sylw a'r Cyngor Cymuned/Tref hefyd yn cael copi o'r Gorchymyn hwnnw. Bydd cyfnod o ddim llai na 42 diwrnod i dderbyn cyflwyniadau a gwrthwynebiadau.

Os na fydd unrhyw gyflwyniadau a gwrthwynebiadau bydd y Cyngor yn cadarnhau'r Gorchymyn. Os bydd cyflwyniad neu wrthwynebiad neu fod unrhyw ddiwygiad i'r Gorchymyn yn angenrheidiol, yna bydd y mater yn cael ei gyfeirio at yr Arolygaeth Gynllunio a fydd yn penodi Arolygydd i ystyried y materion a thystiolaeth ar ffurf cyflwyniadau ysgrifenedig neu ymchwiliad cyhoeddus. Fe all wedyn gadarnhau'r Gorchymyn gyda neu heb newidiadau iddo.

Bydd y Cyngor yn hysbysu'r ymgeisydd a ellir cadarnhau'r cais neu beidio.

Pan fydd Gorchymyn yn cael ei gadarnhau bydd Rhybudd yn cael ei gyhoeddi yn y papur newydd lleol a'i osod ar y safle a bydd pawb sydd â diddordeb yn cael eu hysbysu. Gall unrhyw unigolyn y bydd cadarnhau Gorchymyn yn ei dramgwyddo yn medru cwestiynu ei ddilysrwydd yn yr Uchel Lys cyn pen 42 diwrnod o'r hysbysiad. Rhaid i'r sail ar gyfer cais o'r fath fod nad yw'r Gorchymyn o fewn pwerau Deddf 1981 neu na chydymffurfiwyd â'r Ddeddf. Gall yr Uchel Lys ddileu Gorchymyn neu ran ohono os bydd yn fodlon bod hyn yn wir.

Os bydd y Gorchymyn Diwygio yn cael ei gadarnhau ac nid ei ddileu gan yr Uchel Lys, bydd yn dod yn rhan o'r Map a'r Datganiad Swyddogol ar gyfer yr ardal ac yn cael ei ddarllen gydag ef fel un ddogfen. Rhaid cael Gorchymyn Digwyddiad Cyfreithiol ar wahân i newid y Map a'r Datganiad Swyddogol. Bydd hyn yn cael ei wneud gan y Cyngor ar ei gost ei hun. Mae'r Arolwg Ordnans yn awtomatig yn cael copi o'r Gorchymyn fel eu bod yn medru ystyried y newidiadau ar yr argraffiad newydd o'u mapiau perthnasol.

Heblaw gosod arwyddion a dangos y ffordd fel arfer ni fydd fawr o effaith ar y ddaear. Ni fydd unrhyw newid mewn perchnogaeth tir ac nid oes raid i'r Awdurdod dderbyn unrhyw atebolrwydd am gynnal a chadw. Ond, os yw'r llwybr wedi ei atal, fe weithredir i gael gwared ar y rhwystr.

### 3.7 Cyfarwyddyd

Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu nodiadau cyfarwyddyd i gynorthwyo ymgeiswyr a fydd yn cael eu darparu am ddim i unrhyw un sydd am wneud cais i ddiwygio'r Map a'r Datganiad Swyddogol.

Mae'r nodiadau cyfarwyddyd ar gael ar wefan y Cyngor hefyd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y gweithdrefnau a nodir yn y polisi orfod cael eu newid yng ngoleuni profiad ac unrhyw gyflwyniadau dilynol y gellir eu derbyn wedi iddo gael ei weithredu. Bydd y polisi yn cael ei ddiweddaru yn achlysurol i adlewyrchu'r penderfyniadau barnwrol cyfredol.

**Pan fydd gan y Cyngor bolisi fel sy'n cael ei amlinellu uchod bydd yn ystyried, mewn achosion addas, a ellid gwneud eithriad a hynny ar sail teilyngdod.**

**Atodiad 1**
**DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**
**ATODLEN 14 CEISIADAU AM ORCHMYNION PENODOL DAN RAN III**

***Ffurf y ceisiadau***

1 Bydd cais yn cael ei wneud yn y ffurf penodedig a bydd y canlynol gyda'r cais—
(a) map a dynnwyd i'r raddfa a nodwyd ac yn dangos y llwybr neu lwybrau y mae'r cais yn ymwneud â nhw; a
(b) chopïau o unrhyw dystiolaeth ddogfennol (gan gynnwys datganiadau tystion) y mae'r ymgeisydd yn dymuno eu nodi i gefnogi'r cais.

***Rhybudd o geisiadau***

2(1) Yn amodol ar is-baragraff (2), bydd yr ymgeisydd yn rhoi rhybudd yn nodi bod y cais wedi ei wneud i bob perchennog a deiliad unrhyw dir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
2(2) Os bydd yr awdurdod, wedi i ymholiadau rhesymol gael eu gwneud, yn fodlon nad yw'n rhesymol i gasglu enw a chyfeiriad perchennog neu ddeiliad unrhyw dir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, gall yr awdurdod roi cyfarwyddyd y gall y rhybudd sy'n ofynnol i'w gyflwyno iddo gan is-baragraff (1) gael ei gyflwyno trwy ei gyfeirio ato trwy'r disgrifiad "perchennog" neu "ddeiliad" y tir (gan ei ddisgrifio) a thrwy ei osod ar ryw wrthrych neu wrthrychau amlwg ar y tir.
2(3) Pan fydd gofynion y paragraff hwn wedi eu cyflawni, gall yr ymgeisydd dystio i'r ffaith honno wrth yr awdurdod.
2(4) Bydd pob rhybudd neu dystysgrif dan y paragraff hwn yn y ffurf penodedig.

## *Penderfyniad gan yr awdurdod*

3(1) Cyn gynted ag y mae'n rhesymol o ymarferol ar ôl derbyn tystysgrif dan baragraff 2(3), bydd yr awdurdod yn—
(a) ymchwilio i'r materion a nodir yn y cais; ac
(b) ar ôl ymgynghori gyda phob awdurdod lleol y mae ei ardal yn cynnwys y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, yn penderfynu a ddylid gwneud neu beidio gwneud y Gorchymyn y mae'r cais yn cyfeirio ato.
3(2) Os na fydd yr awdurdod wedi penderfynu ar y cais cyn pen deuddeng mis o dderbyn tystysgrif dan baragraff 2(3), yna, wedi i'r ymgeisydd wneud cyflwyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi ymgynghori â'r awdurdod, roi cyfarwyddyd i'r awdurdod benderfynu ar y cais cyn diwedd cyfnod fydd yn cael ei bennu yn y cyfarwyddyd.
3(3) Cyn gynted ag y mae'n ymarferol wedi penderfynu ar y cais, bydd yr awdurdod yn rhoi rhybudd o'u penderfyniad trwy gyflwyno copi ohono i'r ymgeisydd ac unrhyw unigolyn yr oedd yn ofynnol cyflwyno rhybudd o gais iddo dan baragraff 2(1).

## *Apêl yn erbyn penderfyniad i beidio gwneud Gorchymyn*

4(1) Pan fydd awdurdod yn penderfynu peidio gwneud Gorchymyn, gall yr ymgeisydd, ar unrhyw adeg cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r rhybudd o benderfyniad gael ei gyflwyno, gyflwyno rhybudd o apêl yn erbyn y penderfyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r awdurdod.

4(2) Wrth ystyried yr apêl, os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y dylid gwneud Gorchymyn, bydd yn rhoi'r cyfarwyddiadau hynny i'r awdurdod sy'n ymddangos yn angenrheidiol i'r diben.

**Atodiad 2**

## CYNLLUN DIRPRWYO HAWLIAU TRAMWY GWYNEDD

Mae'r holl swyddogaethau yn ymwneud â hawliau tramwy sy'n cael eu cynnwys yn y Deddfau Canlynol fel y'u diwygiwyd ac yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth isradd yn cael eu dirprwyo i Bennaeth yr Adran Reoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd):

- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949;
- Deddf Cefn Gwlad 1968;
- Deddf Priffyrdd 1980;
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
- Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984;
- Deddf Llwybrau Beic 1984;
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;
- Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Gorchmynion giatiau)
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 – rhan 6

**DS Mae'r uchod yn darparu bod y grym i *benderfynu* ar bob cais o ran Gorchmynion Hawliau Tramwy a phenderfyniadau i'w cadarnhau yn cael eu dirprwyo i Bennaeth yr Adran Reoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) ac eithrio'r canlynol:**

i Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau sy'n gwasanaethu neu staff yr Adran Reoleiddio.

ii Ceisiadau sy'n ymwneud â thir sydd ym meddiant y Cyngor.

iii Penderfyniadau i gyflwyno Gorchmynion a wnaed dan Ddeddf Priffyrdd 1980, pan dderbynnir gwrthwynebiad i'r Gorchymyn ac na fyddant yn cael eu tynnu yn ôl, i Gynulliad Cenedlaethol i'w cadarnhau

iv Ceisiadau y mae Pennaeth yr Adran Reoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) yn ystyried ddylai gael eu cyfeirio at Bwyllgor.

v Ceisiadau am Orchmynion a wnaed dan Ddeddf Priffyrdd 1980 pan fydd y Cynghorydd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn ei ward yn cyflwyno cais ysgrifenedig i Bennaeth yr Adran Reoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) cyn pen y cyfyngiad amser a bennwyd i ymgynghori ar y mater y dylai'r mater gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Ardal. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr ymgynghori parthed y cynnig.

**Atodiad 3**

## Tystiolaeth Angenrheidiol – Dogfennol

Bydd Arolygwr sy'n cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus i bennu a oes Hawl Tramwy Cyhoeddus wedi ei sefydlu dros dir, yn disgwyl i'r canlynol fod wedi cael eu hymchwilio ac i gopïau gael eu darparu (pan fydd yn berthnasol) fel rhan naturiol o'r broses:

Mapiau, yn amrywio o Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans (c.1835) hyd yr argraffiad diweddaraf perthnasol, gan gynnwys mapiau ar raddfa fawr a bach
Hen Fapiau Sirol a mapiau preifat
Mapiau ac Atodlenni'r Degwm
Dyfarniadau Cau Tiroedd a'r Atodlen
Mapiau ac Atodlen Deddf Cyllid 1910
Cynlluniau ac atodlenni Mesurau preifat neu Ddeddfau Seneddol neu Orchmynion perthnasol (ee rheilffordd).
Llyfrau taith, mapiau a thaflenni perthnasol
Copïau perthnasol o gofnodion Cynghorau Sir, Dosbarth a Phlwyf a Chymuned
Gweithredoedd
Dyfarniadau Llys
Ffotograffau wedi eu dyddio
Gohebiaeth berthnasol (e.e. rhwng tirfeddianwyr a thenantiaid neu dresmaswyr honedig)
Unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall a all fodoli sy'n berthnasol i'r mater

## Tystiolaeth Defnyddwyr

Fel arfer bydd Arolygwr yn disgwyl medru holi'r rhai sy'n darparu tystiolaeth defnyddwyr ac i'r bobl hynny gael eu croesholi. Gall tystiolaeth na fydd yn destun i'r prawf hwn gael ei ddiystyru neu ei hepgor.

Datganiadau ar ffurflenni a bennwyd
Affidafidau ar lw
Ffotograffau perthnasol, wedi eu dyddio neu gyfryngau eraill
Recordiadau o gyfweliadau gyda defnyddwyr

***Sylwer: Bydd peidio darparu cymaint o dystiolaeth berthnasol ag sy'n briodol ym mhob achos, yn peri oedi sylweddol wrth ystyried y cais a phenderfynu arno. Mae felly er mantais i'r ymgeisydd gyflwyno'r ddadl orau posibl i gael canlyniad cyflym a llwyddiannus.***

## Gweithdrefn a Pholisi ar gyfer Gorchmynion Gwyro a Diddymu Llwybr Cyhoeddus

### 4.0 Cyflwyniad

Dyfeisiwyd y polisi hwn gan ystyried Deddf Priffyrdd 1980, yn arbennig Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus a wneir dan Adrannau 118 ac 119. Nid yw’r polisi hwn yn cynnwys Cytundebau Creu a Gorchmynion a wneir dan Adrannau 25 a 26 yn eu tro, ac nid yw’n cynnwys defnyddio Adran 116 trwy Lys Ynadon.

Os bydd angen i lwybr gael ei wyro neu ei ddiddymu i ddatblygiad ddigwydd, rhaid gwneud gorchymyn cyfreithiol dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 cyn i’r datblygiad gael ei gwblhau. Nid yw’r ddogfen bolisi hon yn berthnasol yn yr achosion hyn.

### 4.1 Cefndir

Dan Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980, gall unrhyw unigolyn wneud cais i’r Awdurdod Priffyrdd am ddiddymu llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig ar y sail nad oes ei angen ar gyfer defnydd y cyhoedd.

Yn unol â darpariaethau Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, gall unrhyw unigolyn wneud cais i’r Awdurdod Priffyrdd wyro llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig pan fydd cynigion o’r fath er budd y perchennog, y deiliad neu brydleswr y tir y mae’r hawl tramwy yn rhedeg drosto gyda neu heb fudd i’r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae deddfwriaeth arall yn darparu ar gyfer gwyro a diddymu hawliau tramwy mewn nifer o amgylchiadau ychwanegol e.e. ar gyfer diogelu ysgolion, ar gyfer atal troseddau mewn ardaloedd penodol, i ddiogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu er budd diogelwch y cyhoedd pan fydd hawliau tramwy yn croesi rheilffyrdd. Rhestrir darpariaethau o’r fath yn Atodiad 1.

Dylid nodi bod gwyro a diddymu llwybrau yn *bwerau* sy’n perthyn i’r Awdurdod Priffyrdd ac nid yn *ddyletswydd statudol*. Ond, gall ymgeiswyr gael hawl i wneud cais am rai mathau o geisiadau.

Dylid nodi bod raid i gynigion ar gyfer gwyro llwybrau ystyried anghenion symud pobl anabl neu ddall a all fod yn defnyddio’r llwybr.

Dylid nodi nad yw’r Cyngor yn gyffredinol yn cefnogi ceisiadau am Orchmynion Diddymu oni bai eu bod yn rhan o becyn ehangach y mae budd cyhoeddus arall yn deillio ohono. Ni fydd y Cyngor yn derbyn ceisiadau ar eu pen eu hunain am ddiddymu oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

### 4.2 Meini prawf ymgeisio

Mae’n hanfodol i unrhyw gais fodloni’r meini prawf deddfwriaethol/ymgeisio cyn iddo gael ei gyflwyno. Cynghorir ymgeiswyr yn gryf y dylent drafod eu hachos gyda’r Swyddog Hawliau Tramwy Ardal yn y lle cyntaf. Dim ond os bydd yn fodlon y gellir cadarnhau’r Gorchymyn y bydd y Cyngor yn arfer ei ddisgresiwn i wneud Gorchymyn (h.y. ei fod yn credu bod y profion deddfwriaethol wedi eu bodloni).

Mae'r profion deddfwriaethol y mae'n rhaid i gais penodol ei bodloni yn dibynnu ar y math o Orchymyn a geisir (gweler Atodiad 1).

Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu set o nodiadau cyfarwyddyd yng nghyswllt gwyriadau y gellir eu darparu am ddim i unrhyw ymgeisydd posibl. Mae'r nodiadau cyfarwyddyd yn egluro'r profion yn y ddeddfwriaeth ac yn ychwanegol atynt. Darperir y nodiadau hyn yn Atodiad 2 i'r polisi hwn.

Argymhellir yn gryf i ymgeiswyr roi sylw arbennig i'r nodiadau cyfarwyddyd hyn cyn cyflwyno cais.

Rhaid i'r llwybr presennol fod yn glir o unrhyw rwystrau cyn i'r cais gael ei gyflwyno, ac yn glir o rwystrau nes bydd y Gorchymyn yn cael ei gadarnhau a bod y llwybr newydd ar gael i'w ddefnyddio (gall y gofyn hwn gael ei amrywio mewn amgylchiadau pan fydd llwybr yn cael ei rwystro gan rwystr sylweddol a/neu hanesyddol, e.e. adeilad neu ehangder o ddŵr).

Dylid nodi ei bod yn anghyfreithlon dan gyfraith gwlad a chyfraith statudol i unrhyw unigolyn, heb ganiatâd neu esgus cyfreithlon, i roi rhwystr i atal pobl rhag teithio yn rhydd ar hyd priffordd yn fwriadol mewn unrhyw ffordd.

## 4.3 Gwneud cais

Bydd ymgeiswyr i wyro llwybrau neu i'w diddymu yn cael y ffurflen gais berthnasol i'w llenwi.

Fel rhan o'r cais, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno dau gynllun yn darlunio'r cynnig a manylion perchnogaeth y tir. Gall y cynlluniau gael eu cyflenwi gan y Cyngor os gofynnir amdanynt.

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan yr holl dirfeddianwyr a deiliaid tir y bydd y gwyriad arfaethedig yn effeithio arnynt. Rhaid cyflwyno copi o'r cydsyniad gyda'r cais.

Disgwylir i ymgeiswyr am wyriadau a diddymu llwybrau:-

- gytuno yn ysgrifenedig y byddant yn talu unrhyw gostau gweinyddol fydd yn gysylltiedig â gwneud y Gorchymyn (yn ôl y strwythur taliadau – gweler Atodiad 3) a gwir gost hysbysebu'r Gorchymyn Gwyro yn y wasg yn lleol;
- gytuno yn ysgrifenedig i dalu unrhyw iawndal sy'n dod yn daladwy o ganlyniad o weld y Gorchymyn yn dod i weithrediad;
- gytuno yn ysgrifenedig i dalu'r holl gostau wrth osod unrhyw linell llwybr newydd ar y ddaear;

Rhaid i daliad (£200) ymlaen llaw na fydd yn cael ei dalu yn ôl tuag at y costau hyn gael ei anfon gyda phob cais.

Ni fydd y Cyngor yn cychwyn y gweithdrefnau nes y bydd yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r holl gamau cychwynnol. Bydd unrhyw gais anghyflawn fel arfer yn cael ei ddychwelyd at yr ymgeisydd gydag esboniad o'i ddiffygion.

Dylid nodi bod y costau gweinyddol a hysbysebu a dynnir yn daladwy boed y Gorchymyn yn llwyddiannus neu beidio.

Mewn achosion lle bydd, ym marn Adran Hawliau Tramwy'r Cyngor, ddigon o fudd i'r cyhoedd, rhoddir ystyriaeth i hepgor y cyfan neu ran o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu cais am Orchymyn Llwybr Cyhoeddus.
Pan fydd y Cyngor yn cychwyn Gorchymyn, bydd yr adran berthnasol yn talu costau prosesu'r cais.

## 4.4 Blaenoriaeth ar gyfer ymdrin â cheisiadau

Fel arfer bydd ceisiadau yn cael eu trin yn nhrefn amser ar ôl eu derbyn. Ond, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i roi blaenoriaeth i rai ceisiadau allan o'r dilyniant pan fydd meini prawf eraill yn berthnasol. Gall yr enghreifftiau o feini prawf perthnasol o'r fath gynnwys:-

- Osgoi perygl sydd ar fin digwydd i'r cyhoedd pan na fydd gwaith iechyd a diogelwch adfer arall yn addas.

- Agor llwybr sydd wedi ei rwystro gan rwystr tymor hir.

- Symud llwybr i gynyddu mwynhad gwirioneddol y cyhoedd (er enghraifft, trwy ddarparu gwell golygfeydd neu gyfleoedd i wylio bywyd gwyllt neu i osgoi dŵr rhag cronni yn barhaus).

- Cael gwared ag ymdeimlad gwirioneddol o golli preifatrwydd ar gyfer y cyhoedd (nid un sy'n cael ei amgyffred gan yr ymgeisydd yn unig) pan fydd hyn yn rhwystr gwirioneddol i'w ddefnyddio na lwyddwyd i'w oresgyn trwy osod arwyddion a chyfeirbwyntiau clir.

- Agor y rhwydwaith trwy ddarparu dolen bwysig at weddill y rhwydwaith nad yw'r llwybr presennol yn ei ddarparu.

## 4.5 Penderfynu ar y cais

Ar ôl derbyn cais dilys, fel arfer trefnir ymweliad safle gan y Swyddog Hawliau Tramwy. Mae'r ymweliad safle yn gyfle delfrydol i weld llinell Swyddogol yr Hawl Tramwy ac ystyried y cynnig. Fel arfer bydd y Swyddog yn rhoi cyngor am addasrwydd y cynnig, gofynion statudol ac a fydd raid i'r ymgeisydd wneud unrhyw waith ar y ddaear neu beidio, er enghraifft i ddwyn llwybr a wyrwyd i safon addas.

Ni all y Swyddog wneud y penderfyniad a ddylid gwneud Gorchymyn Gwyro neu Ddiddymu neu beidio, ond gall roi cyngor ar y tebygolrwydd y bydd yn llwyddo.

Yn dilyn yr ymweliad, bydd y Swyddog Hawliau Tramwy yn dod i benderfyniad cychwynnol a yw'r cais yn bodloni'r meini prawf sydd yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

Os bydd y Swyddog Hawliau Tramwy yn fodlon bod y cais yn bodloni'r meini prawf perthnasol, bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda'r Cyngor Cymuned neu Dref perthnasol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (pan fydd yn berthnasol), tirfeddianwyr, grwpiau sydd â buddiant ag Ymgymerwyr Statudol. Bydd hyn, fe obeithir, yn annog gwell deialog rhwng pawb sydd â buddiant a'r Awdurdod ac yn helpu i leihau'r risg am wrthwynebiadau os bydd Gorchymyn yn cael ei wneud. Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad uchod, bydd y swyddog yn ymgynghori â'r Aelod Lleol dros yr ardal.

Ond, os derbynnir gwrthwynebiad ar ôl cynnal yr ymgynghoriad cychwynnol, yna bydd y swyddogion naill ai yn:-

a) Trafod gyda'r gwrthwynebydd/wyr mewn ymgais i ddatrys y gwrthwynebiad a/neu yn tynnu'r gwrthwynebiad/au yn ôl a/neu

b) Trafod gyda'r ymgeisydd mewn ymdrech i ganfod llwybr mwy derbyniol ar gyfer y gwyriad arfaethedig.

Os na fydd yn bosibl datrys y gwrthwynebiad/au ar ôl cynnal ymgynghoriadau ychwanegol, na chael y gwrthwynebydd i'w tynnu yn ôl ac na fydd yr ymgeisydd yn gallu neu na fydd yn cynnig llwybr gwahanol, yna bydd adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â Chynllun Dirprwyo Hawliau Tramwy'r Cyngor (gweler Atodiad 4).

## 4.6 Gwneud a chyhoeddi'r Gorchymyn

Os bydd y Cyngor yn penderfynu y dylid gwneud Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus, bydd y Swyddog Hawliau Tramwy, cyn gynted ag sy'n ymarferol, yn gweithredu'r penderfyniad hwn.

Bydd y Gorchymyn yn cael ei hysbysebu mewn papur newydd lleol ac mewn mannau perthnasol ar y safle, gyda chopi o'r Gorchymyn yn cael ei anfon at yr ymgeisydd, deiliad y tir, y Cyngor Tref neu Gymuned a chyrff eraill a nodir yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 5/93.

Os na dderbynnir gwrthwynebiad cyn pen 28 niwrnod, neu fod unrhyw wrthwynebiad a dderbynnir yn cael ei dynnu yn ôl wedyn, bydd y Cyngor yn cadarnhau'r Gorchymyn.

Os cyflwynir unrhyw wrthwynebiad, rhaid iddo gael ei gopïo i'r ymgeisydd, fel bod yr ymgeisydd, os bydd yn dymuno, yn medru trafod gyda'r gwrthwynebwyr gan geisio datrys eu gwrthwynebiad.

Os derbynnir unrhyw wrthwynebiad ac nad yw'n cael ei dynnu yn ôl wedyn, ni all y Cyngor gadarnhau'r Gorchymyn, ond bydd yn ei gyfeirio at y Pwyllgor Ardal a fydd yn pennu a ddylid cyfeirio'r Gorchymyn at yr Arolygiaeth Gynllunio neu beidio i gael penderfyniad. Mewn achosion o'r fath, bydd y Gorchymyn yn cael ei bennu trwy gyflwyniad ysgrifenedig, gwrandawiad neu Ymchwiliad Cyhoeddus.

Bydd y Cyngor yn hysbysu'r ymgeisydd a ellir cadarnhau'r cais neu beidio.

Pan fydd Gorchymyn yn cael ei gadarnhau, bydd Rhybudd yn cael ei gyhoeddi mewn papur lleol a'i osod ar y safle a bydd pawb sydd â budd yn cael eu hysbysu. Gall unrhyw unigolyn y bydd cadarnhau Gorchymyn yn peri pryder iddo gwestiynu ei ddilysrwydd yn yr Uchel Lys cyn pen 42 diwrnod o gael hysbysiad. Rhaid i sail cais o'r fath fod oherwydd nad yw'r Gorchymyn o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980 neu na chydymffurfiwyd â'r Ddeddf. Gall yr Uchel Lys ddileu Gorchymyn yn gyfan neu yn rhannol os yw'n fodlon bod hyn yn wir.

Os bydd y Cyngor wedi nodi bod angen gwaith ffisegol er mwyn i'r llwybr newydd gyrraedd safon addas, rhaid i waith o'r fath gael ei gwblhau cyn i'r Gorchymyn ddod i rym. Bydd y gwaith yn cael ei archwilio ac os bydd yn foddhaol, bydd yn cael ei ardystio gan swyddog o'r Adran Hawliau Tramwy.

Os na fydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn foddhaol, gall y Cyngor wneud y gwaith ei hun ac adfer y gost o wneud hynny gan yr ymgeisydd.

Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau ac i'r Gorchymyn ddod i rym, bydd yr ymgeisydd yn cael anfoneb am unrhyw gostau sydd heb eu talu. Bydd mynegbyst yn cael eu gosod ar y llwybr newydd (pan fydd hynny'n berthnasol) pan fydd yn gadael priffyrdd sy'n cael ei chynnal, a bydd arwyddion "Gwyriad" yn cael eu gosod ar y mannau pan fydd y cyhoedd yn dod ar draws yr hen lwybr (caeedig), gan eu cyfeirio at y llwybr newydd. Bydd yr arwyddion hyn yn aros yn eu safle am leiafswm o 5 mlynedd i hysbysu defnyddwyr y llwybr cyn i'r mapiau Arolwg Ordnans gael eu diwygio, a'r rhai sy'n defnyddio argraffiadau hŷn o'r map.

Canlyniad Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus yw newid llwybr ar y ddaear.  Mae'n ofynnol cael Gorchymyn Digwyddiad Cyfreithiol ar wahân i greu newid ar y Map a'r Datganiad Swyddogol.

Bydd hyn yn cael ei wneud gan y Cyngor ar ei gost ei hun. Bydd yr Arolwg Ordnans yn derbyn copi o'r Gorchymyn yn awtomatig fel eu bod yn medru ystyried y newidiadau wrth gyhoeddi'r argraffiad nesaf o'r mapiau perthnasol.

**Atodiad 1**

**Profion Cyfreithiol**

Mae'r profion deddfwriaethol y mae'n rhaid i gais penodol eu bodloni yn dibynnu ar y math o Orchymyn sy'n cael ei geisio. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r mathau canlynol o Orchmynion:

- **Gorchymyn Diddymu Llwybr Cyhoeddus - Adran 118 Deddf Priffyrdd 1980**: Gall hawl tramwy gael ei ddiddymu pan nad oes ei angen ar gyfer defnydd y cyhoedd.

- **Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus - Adran 119 Deddf Priffyrdd 1980**: Gall hawl tramwy gael ei wyro pan ddangosir ei bod o fudd i'r tirfeddiannwr perthnasol a/neu'r cyhoedd i wneud hynny, ond dim ond :

  i) pan na fydd y llwybr wedi ei wyro yn sylweddol lai cyfleus i'r cyhoedd; a
  ii) ni fyddai'r gwyriad yn newid unrhyw bwynt y bydd y llwybr yn dod i ben, heblaw i bwynt arall ar yr un briffordd, neu briffordd gysylltiedig.

Rhaid ystyried yr effaith y byddai'r gwyriad yn ei gael ar fwynhad y cyhoedd o'r llwybr yn gyffredinol hefyd cyn gwneud penderfyniad.

- **Gorchymyn Diddymu/Gwyro Croesfan Rheilffordd - Adran 118A / 119A Deddf Priffyrdd 1980**: Gall hawl tramwy sy'n croesi rheilffordd gael ei ddiddymu (Adran 118A) neu ei wyro (Adran 119A) lle gellir dangos ei bod yn gyfleus i wneud hynny er budd diogelwch y cyhoedd, ond dim ond os nad yw'n bosibl gwneud y groesfan yn ddiogel.

- **Gorchymyn Diddymu/Gwyro Arbennig - Adran 118B / 119B Deddf Priffyrdd 1980**: Diddymu (118B) neu wyro (119B) rhai priffyrdd ar gyfer dibenion atal troseddau mewn ardaloedd penodedig.

- **Gorchymyn Diddymu/Gwyro Arbennig – Adran 118C / 119C Deddf Priffyrdd 1980**: Gall rhai priffyrdd gael eu diddymu (Adran 118C) neu eu gwyro (Adran 119C) am resymau yn ymwneud â diogelwch ysgolion {ar gyfer diogelu disgyblion a staff rhag trais; bygythiad o drais; aflonyddu; ofn neu bryder yn deillio o weithgareddau anghyfreithlon; unrhyw beryglon eraill i'w iechyd a diogelwch yn codi o weithgaredd o'r fath}.

- **Gorchymyn Gwyro SoDdGA - Adran 119D Deddf Priffyrdd 1980**: Gall hawl tramwy gael ei wyro er mwyn diogelu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

- **Adran 118ZA / 119ZA Deddf Priffyrdd 1980**: Diddymu (118ZA) neu wyro (119ZA) llwybrau er budd perchnogion, prydleswyr neu ddeiliaid tir a ddefnyddir er mwyn amaeth, coedwigaeth neu fagu neu gadw ceffylau.

**Atodiad 2**

**Rhan I – Y Broses**

Ni ddylid symud llwybr hawl tramwy cyhoeddus oni bai bod y newid wedi cael ei ganiatáu yn gyntaf trwy orchymyn cyfreithiol, a elwir yn orchymyn gwyro. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn esbonio sut i wneud cais i Gyngor Gwynedd am ganiatâd i symud llwybr troed, llwybr ceffyl neu gilffordd gyfyngedig. Mae rheolau gwahanol yn weithredol ar gyfer gwyro cilffordd sy'n agored i bob traffig.

**Pryd y gellir gwyro llwybr?**

Ni fydd gwyriad yn cael ei ganiatáu oni bai bod y cynnig yn bodloni gofynion penodedig yn y Ddeddf Priffyrdd 1980. Rhaid i'r gwyriad arfaethedig fod er budd y perchennog, deiliad, neu brydleswr y tir y mae'r hawl tramwy yn ei groesi, neu er budd y cyhoedd a rhaid i'r llwybr newydd beidio bod yn sylweddol lai cyfleus i'r cyhoedd. Yn fwy na dim, rhaid iddi fod yn hwylus i gael y gwyriad. Wrth benderfynu a yw'n hwylus neu beidio, byddwn yn ystyried mwynhad y cyhoedd ar y llwybr cyfan ac effaith y gwyriad ar dir arall. Mae gan Barc Cenedlaethol Eryri hefyd y pŵer i wyro llwybrau i alluogi i ddatblygiadau ddigwydd yn eu hardal.
Gallwn hefyd wneud gorchmynion gwyro i wella diogelwch ysgolion a lleihau troseddu, ond fe fyddem yn hoffi i'r rhain gael eu trafod gyda ni cyn i gais gael ei wneud, gan y bydd ystyriaethau gwahanol yn berthnasol.

**Pwy all wneud cais?**

Gall unrhyw un wneud cais am wyriad, ond byddem yn annhebygol iawn o gytuno i wyriad heb gydsyniad perchnogion a deiliaid y tir y mae'r llwybr hen a newydd yn ei groesi, a bydd yn ofynnol cael tystiolaeth o'r cydsyniad hwnnw gyda'r cais.

**Pa mor hir y mae'n ei gymryd?**

Rydym yn gobeithio gwneud ein penderfyniad ar y cais cyn pen chwe mis (mae'n cymryd cymaint â hyn oherwydd bod rhaid i ni gael amser i ymgynghori ag eraill am y cynnig). Hyd yn oed pan fyddwn yn cytuno i wneud gorchymyn, bydd yn cymryd o leiaf chwe mis arall cyn i'r prosesau cyfreithiol fod wedi eu cwblhau. Os bydd gwrthwynebiad i'r gorchymyn, gall gymryd mwy o amser yn sylweddol. Cofiwch, *pwêr* ac nid *dyletswydd* yw'r gwaith hwn ac felly mae'n dibynnu ar faich gwaith yr Uned ar adeg y cais, a'r adnoddau staff sydd ar gael ar ei gyfer.

**Beth mae'n ei gostio?**

Ni all y gwyriad gael ei gwblhau nes bydd llwybr newydd wedi cael ei greu ac mewn cyflwr da. Byddwn yn nodi pa waith y bydd angen ei wneud cyn y byddwn yn gwneud gorchymyn gwyro, ond, os bydd y gwyriad yn mynd yn ei flaen, rhaid i'r ymgeisydd wneud y gwaith, i'n bodloni, ar ei draul ei hun. Mae gennym y grym i wneud y gwaith angenrheidiol ac adfer y gost gan yr ymgeisydd os bydd yn peidio gwneud hynny.

Byddwn yn codi tâl ar yr ymgeisydd am yr amser y byddwn yn ei dreulio yn prosesu cais cyn i orchymyn gael ei wneud yn ôl y rhestr isod ac am wir gost hysbysebu'r gwyriad yn y wasg leol (tua £1,000, gan ddibynnu ar hyd yr hysbyseb ac ar y papur newydd dan sylw).

**Strwythur ffi presennol**

Gall fod yn ofynnol i ymgeisydd dalu iawndal i unrhyw un y mae ei dir yn colli ei werth o ganlyniad i'r gwyriad.

Gallwn ofyn i ymgeisydd lunio cytundeb gyda ni i dalu'r costau a'r treuliau hyn.

**Pwy sy'n penderfynu a ddylid gwyro llwybr?**

Ni fydd i gychwyn. Bydd y swyddog achos yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor dan y cynllun Dirprwyo a fydd yn penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn gwyro neu beidio. Ond, mae gwneud gorchymyn yn broses gyhoeddus, ac os byddwn yn derbyn gwrthwynebiad i'r gorchymyn gallwn wrthod mynd â'r mater ymhellach, neu gallwn ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol am benderfyniad. Gall hyn arwain at ymchwiliad cyhoeddus, neu wrandawiad, neu gael ei drin trwy gyfrwng cyflwyniadau ysgrifenedig.

Sylwer nad oes raid i ni wneud gorchymyn gwyro, hyd yn oed os bydd yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth. Rydym yn gobeithio, trwy ddarparu cyngor yn Rhan II o'r cyfarwyddyd hwn, y bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i gynnig gwyriadau fydd yn gwella'r rhwydwaith, neu yn cynnig gwell cyfleoedd mynediad i'r cyhoedd. Rydym yn cadw'r hawl i beidio cytuno i wyriadau nad ydynt yn gwneud hynny. Fe fyddwn, fodd bynnag, yn ystyried pob cais ac yn rhoi rhesymau am ein penderfyniad.

**Camau cyntaf**

**Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i drafod eu hachos gyda'r Swyddfa Hawliau Tramwy yn gyntaf.**

1. Rydym yn argymell y dylai unrhyw un sy'n ystyried symud hawl tramwy cyhoeddus ganfod llinell gyfreithiol gywir y llwybr i gychwyn (efallai nad dyma yn union sut y mae'r llwybr yn cael ei ddefnyddio yn ymarferol). Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhwydwaith hawliau tramwy ar gael yn ein swyddfeydd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau. Mae gan bob hawl tramwy cyhoeddus gyfeirnod arbennig yn ôl enw'r Gymuned lle mae, a rhif. Bydd arnom angen y wybodaeth hon i brosesu cais.

2. Dylai llinell newydd arfaethedig y llwybr gael ei gynllunio gan ddefnyddio'r cyfarwyddyd Rhan II. Gallwn ddarparu cyngor anffurfiol yn ystod y cyfnod hwn er mwyn i'r cais gael y cyfle gorau posibl i lwyddo. Gallwn hefyd roi cyngor yn fuan os yw'r cynnig yn annhebygol o lwyddo. Y cyswllt cyntaf yw'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ar gyfer yr Ardal dan sylw.

3. Mae'n gwneud synnwyr i ymgynghori â phreswylwyr lleol a defnyddwyr y llwybr cyn cyflwyno cynnig ffurfiol i'r Cyngor, fel eich bod yn cael eu barn yn gynnar, a thrwy hynny atal y posibilrwydd y bydd gwrthwynebiad wedi i'r ffi am y cais gael ei thalu.

4. Codi hysbysiad wrth ochr y rhan sy'n mynd i gael ei wyro, gan esbonio'r gwyriad a gynigir a gofyn am sylwadau ac awgrymiadau gan y rhai sy'n defnyddio'r llwybr. Cynhwyswch gynllun ar raddfa bras yn dangos y rhwydwaith hawliau tramwy fel y mae yn yr ardal (efallai y byddwn yn medru eich helpu yn hyn o beth).

5. Cysylltwch â chynrychiolwyr lleol grwpiau defnyddwyr sydd â budd yn y llwybr a holi am eu mewnbwn. Byddwn yn medru cyflenwi manylion cyswllt ar gyfer cynrychiolwyr Cymdeithas y Cerddwyr, yr Open Spaces Society a'r Cyngor Cymuned, a hefyd y Gymdeithas Geffylau

Brydeinig a Chlwb Teithio'r Beicwyr (wrth sôn am lwybrau ceffyl) a'r Gymdeithas Yrru Brydeinig (wrth sôn am gilffyrdd cyfyngedig).

**Y cais**

Byddwn yn darparu copïau o'r ffurflen gais, y dylid ei hanfon atom pan fydd y cynnig ar ei ffurf derfynol, ynghyd â map yn dangos y gwyriad arfaethedig.

## Rhan II – Dewis llwybr newydd

Bwriadwyd y rhan hon o'r cyfarwyddyd i helpu ymgeiswyr i hyrwyddo gwyriad sy'n cynnig y llwybr gwahanol gorau posibl ar gyfer defnydd y cyhoedd a chais sydd, felly, yn fwy tebygol o gael ei gymeradwyo. Fe'i bwriadwyd hefyd i atal ceisiadau sydd ag ychydig iawn o obaith o lwyddo.

Rydym yn cydnabod bod rhaid ystyried anghenion a dyheadau defnyddwyr y llwybr pan fydd llwybr yn cael ei wyro yn ogystal â rhai'r tirfeddiannwr a/neu reolwr. Byddwn yn ystyried y ddau a byddwn hefyd yn ystyried ein Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, sy'n sail i'r ffordd yr ydym yn rheoli'r rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r rhain yn ganlyniad ymchwil ac ymgynghori gyda phreswylwyr lleol, grwpiau defnyddwyr mynediad, ffermwyr a rheolwyr tir.

Rydym yn cydnabod bod gan ddefnyddwyr gwahanol wahanol anghenion ac na fydd pawb sy'n defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy yn cytuno ar y nodweddion sy'n ei wneud yn arbennig. Rydym wedi ymgynghori â nifer o bobl a sefydliadau gyda diddordebau gwahanol ac rydym wedi ceisio tynnu allan y materion sy'n achosi mwyaf o bryder. Ni fwriadwyd i'r cyfarwyddyd hwn fod yn holl gynhwysol, oherwydd bydd ansawdd cyffredinol cais yn gyfuniad o lawer o wahanol ffactorau. Gall y rhain gynnwys:

- ansawdd profiad y defnyddiwr o'r llwybr presennol a'r llwybr newydd arfaethedig, o ran arwyneb, graddiant a golygfeydd,
- pwysigrwydd y llwybr yn y rhwydwaith,
- natur y dirwedd,
- anghenion a chyfleoedd lleol, a
- lefel rhwyddineb cynnal a chadw yn y dyfodol.

Canllaw yn unig yw ein hargymhellion ar led, er enghraifft, oherwydd nid yw darparu llwybr ar y lled yr ydym yn ei awgrymu yn gwarantu y byddwn yn edrych yn ffafriol ar y cais, mwy nag y bydd peidio cydymffurfio yn golygu y bydd y cais o angenrheidrwydd yn aflwyddiannus. Rydym yn awgrymu y dylai llwybrau troed newydd fod yn 2 fetr o led o leiaf, oherwydd mae'r lled hwn yn cynnig rhwyddineb i ddefnyddio'r llwybr ac yn ei wneud yn fwy hygyrch i'r peiriannau a ddefnyddir i'w dorri. Ond, os oes rhesymau ymarferol da, neu rai rheoli tir, pam y dylai'r lled fod yn llai gall y gwyriad fod yn dderbyniol wedyn. Rydym am annog mynediad rhwyddach i gefn gwlad i bawb, felly byddwn yn edrych yn fwy ffafriol ar lwybr newydd nad oes giatiau na chamfeydd arno nag un sy'n llai hygyrch. Ond, rydym hefyd yn cydnabod bod rhesymau pam y gall strwythurau fod yn angenrheidiol i reoli tir yn briodol, felly gall llwybr newydd sy'n cynnwys giatiau neu strwythurau o'r fath gael ei gymeradwyo hefyd. Dylai ein cyfarwyddyd gael ei ddarllen yn yr ysbryd hwn.

## 1. Hygyrchedd i ddefnyddwyr ac ar gyfer cynnal a chadw

### Strwythurau

- Rydym yn hoffi llwybrau heb giatiau, camfeydd neu strwythurau eraill
- Nid ydym yn hoffi llwybrau gyda strwythurau oni bai eu bod yn angenrheidiol i atal defnydd heb ganiatâd neu i reoli da byw. Os oes angen strwythur i atal defnydd heb ganiatâd, pan fydd hynny'n bosibl dylid gadael bwlch ar yr ochr ar gyfer mynediad i gerddwyr (a cheffylau pan fydd angen hynny). Gall strwythurau sy'n angenrheidiol i reoli da byw gael eu caniatáu dan A.147 Deddf Priffyrdd 1980.
- Nid ydym yn hoffi camfeydd.
- Byddem yn hoffi i chi drafod manyleb unrhyw strwythurau gyda ni cyn cyflwyno eich cais. Rhaid i giatiau llwybrau ceffyl fod â lleiafswm o 1.5 metr (5 troedfedd) o agoriad clir, cliced hawdd ei defnyddio a dylai fod yn agoriad dwbl pan fydd hynny'n bosibl. Byddem yn hoffi gweld giatiau Radar a giatiau symudedd canolig pan fydd gwelliannau i hygyrchedd yn angenrheidiol neu'n ddymunol.
- Rydym yn hoffi i strwythurau ar lwybrau ceffyl ar gyffyrdd gyda ffyrdd i fod yn ddigon pell yn ôl o'r gyffordd i gynnig ardal i'r marchogion a'r beicwyr aros yn ddiogel cyn croesi.

### Lled

- Nid ydym yn hoffi i lwybrau newydd fod yn gulach na'r llwybrau y maent yn eu disodli.
- Rydym yn hoffi i lwybrau fod yn ddigon llydan i bobl eu defnyddio yn rhwydd ac i fynediad i beiriant petai angen torri'r arwyneb, yn ddelfrydol lleiafswm o 2 fetr i lwybr troed a 3 metr ar gyfer llwybr ceffyl, ond yn gyffredinol, lletaf yn y byd yw'r llwybr, gorau yn y byd.
- Nid ydym yn hoffi gweld bod llwybrau wedi eu gwyro yn cael eu culhau wedyn trwy ffensio neu wrychoedd, felly os bydd llwybr yn mynd i gael ei gau i mewn dylid cynnig o leiaf 0.5 metr (18 modfedd) yn ychwanegol o led.

### Ansawdd yr arwyneb

- Nid ydym yn hoffi i lwybrau newydd fod ag arwyneb sy'n llai gwydn na'r hen un, nag yn un sy'n costio mwy i'w gynnal a'i gadw. Mae draeniad y llwybr newydd yn fater pwysig i'w ystyried, fel y mae gallu'r llwybr i sychu ar ôl tywydd gwlyb. Efallai na fydd wyneb llwybr newydd sbon ar draws tir agored mor wydn ag arwyneb llwybr sydd wedi ei gywasgu trwy gael ei gerdded am ganrifoedd, felly efallai y bydd angen draenio'r llwybr newydd neu fod angen gwaith peirianyddol arno cyn y bydd o safon debyg.
- Rydym yn hoffi llwybrau newydd sydd yn fwy gwydn, gan fod yn gydnaws â'u cymeriad a'u sefyllfa. Byddwn yn rhoi cyngor ar y safon ofynnol ar gyfer adeiladu llwybr newydd. Bydd hyn yn amrywio yn ôl ei leoliad a'i ddefnydd yn y dyfodol. Er enghraifft, os bydd y gwyriad yn golygu y bydd y llwybr yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio yn amlach nag o'r blaen, efallai y byddwn yn gofyn i'r llwybr newydd gael ei lunio i safon uwch na'r hen lwybr.
- Nid ydym yn hoffi i lwybrau newydd ddefnyddio mannau mynediad preifat lle mae da byw yn ymgasglu neu lle gall yr arwyneb gael ei ddifrodi gan beiriannau fferm.

- Nid ydym yn hoffi i lwybrau newydd fod angen gwaith cynnal cyson lle nad oes angen hynny ar weddill y llwybr. Ystyriwch adael i ddefaid barhau i bori ardal y llwybr newydd ond gan gau gwartheg a cheffylau allan ohono.

**Ansawdd y profiad**

- Rydym yn hoffi llwybrau sy'n cynnig yr un math o brofiad, neu brofiad gwell i ddefnyddiwr y llwybr a wyrwyd, o ran cymeriad, golygfeydd, graddiant, a chyfleuster o ran ei ddefnyddio.
- Nid ydym yn hoffi cynnydd sylweddol yn ei hyd, oni bai bod hynny yn cael ei gyfiawnhau pan fydd yn cynnig gwell profiad neu ddolen i rwydwaith nad ydyw mor gyfleus ar y rhwydwaith presennol.
- Nid ydym yn hoffi llwybrau sy'n mynd â'r defnyddiwr oddi wrth fannau o ddiddordeb, fel golygfeydd, nodweddion hanesyddol, neu ddŵr oni bai bod nodwedd gyfatebol ar gael ar y llwybr newydd.
- Rydym yn hoffi gwyriadau sy'n lleihau peryglon posibl i'r defnyddiwr, fel mynd â defnyddwyr oddi ar ffordd brysur, neu oddi ar dir a ddefnyddir gan offer trwm a pheiriannau.
- Rydym yn hoffi llwybrau sy'n fwy diogel i ddefnyddwyr, fel y rhai gyda gwell golwg o'r ffordd mewn mannau croesi ac heb gorneli na allwch eu gweld neu fannau cuddio.
- Rydym yn hoffi llwybrau sy'n dilyn llwybr sy'n hawdd i'r defnyddwyr ei ddilyn heb ormodedd o arwyddion a chyfeirbwyntiau.

**Gwerth strategol**

- Rydym yn hoffi cynigion gwyro sy'n cynnig gwelliannau o ran cyswllt â rhannau eraill o'r rhwydwaith hawliau tramwy neu i ardal neu ardaloedd lle mae mynediad cyhoeddus.
- Nid ydym yn hoffi gwyriadau sy'n gwneud y gwrthwyneb.
- Rydym yn hoffi gwyriadau sy'n cynnig gwelliannau rhwydwaith yn well na'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Dylai'r holl gynigion gwyro fodloni'r safonau sy'n berthnasol i briffyrdd o'r math hwnnw.
- Rydym yn hoffi gwyriadau sy'n cynnig hawliau ychwanegol i ddefnyddwyr nad ydynt ar gerbyd modur. Os bydd llwybr troed newydd yn addas a phriodol i'w ddefnyddio gan farchogion a beicwyr, byddwn yn croesawu rhoi hawliau ychwanegol i'r defnyddwyr hynny.

Rydym yn cadw'r hawl i beidio prosesu cais am wyriad os bydd yr hawliau tramwy ar dir sy'n eiddo i'r tirfeddiannwr ddim yn addas i'w defnyddio o ganlyniad i unrhyw ddiffyg ar ran perchennog neu ddeiliad y tir.

Ni fyddwn yn gwneud na chadarnhau gorchymyn os na fyddwn yn ystyried ei bod yn hwylus gwneud hynny. Wrth benderfynu a yw'n hwylus neu beidio, gallwn ystyried cost hyrwyddo gorchymyn ar ôl ei wneud, a'r budd posibl sy'n cael ei greu i'r cyhoedd o greu'r llwybr newydd.

**Atodiad 3**

# Costau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus

**Cyngor Gwynedd Council**
**Costau Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ffi i'w gyflwyno gyda cais | £433.34 |
| 2. | Gorchymyn yn cael ei wneud | £542.20 |
| 3. | Gorchymyn yn cael ei gadarnhau heb wrthwynebiad | £1,203.73 |
| 4. | Gorchymyn yn cael ei wrthwynebu, cais yn cael ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd | £962.98 |
| 5. | Gorchymyn yn cael ei wrthwynebu, Awdurdod yn penderfynu peidio mynd ymlaen | £1,179.64 |
| 6. | Gorchymyn yn cael ei wrthwynebu, Awdurdod yn mynd ymlaen i Ymchwiliad Cyhoeddus a'r Gorchymyn yn cael ei gadarnhau | £4,429.69 |
| 7. | Gorchymyn yn cael ei wrthwynebu, Awdurdod yn mynd i Ymchwiliad Cyhoeddus a'r cais yn cael ei wrthod | £3,767.12 |
| 8. | Yn ychwanegol i'r ffioedd uchod bydd yr ymgeisydd yn talu costau hysbysebu fydd yn ddibynol ar gostau y papur lleol (gweler isod): | |

| | | |
|---|---|---|
| 2 uchod: | 1 hysbyseb | Adennill y gost |
| 3, 4,5 uchod : | 2 hysbyseb | Adennill y gost |
| 6, 7 uchod : | 3 hysbyseb | Adennill y gost |

**Atodiad 4**

## CYNLLUN DIRPRWYO HAWLIAU TRAMWY GWYNEDD

Mae'r holl swyddogaethau yn ymwneud â hawliau tramwy sy'n cael eu cynnwys yn y Deddfau Canlynol fel y'u diwygiwyd ac yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth isradd yn cael eu dirprwyo i Bennaeth yr Adran Reoleiddiol (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd):

- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949;
- Deddf Cefn Gwlad 1968;
- Deddf Priffyrdd 1980;
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
- Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984;
- Deddf Llwybrau Beic 1984;
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;
- Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Gorchmynion giatiau)
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 – rhan 6

**DS Mae'r uchod yn darparu bod y grym i *benderfynu* ar bob cais o ran Gorchmynion Hawliau Tramwy a phenderfyniadau i'w cadarnhau yn cael eu dirprwyo i Bennaeth yr Adran Reoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) ac eithrio'r canlynol:**

i Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau sy'n gwasanaethu neu staff yr Adran Reoleiddio.

ii Ceisiadau sy'n ymwneud â thir sydd ym meddiant y Cyngor.

iii Penderfyniadau i gyflwyno Gorchmynion a wnaed dan Ddeddf Priffyrdd 1980, pan dderbynnir gwrthwynebiad i'r Gorchymyn ac na fyddant yn cael eu tynnu yn ôl, i Gynulliad Cenedlaethol i'w cadarnhau

iv Ceisiadau y mae Pennaeth yr Adran Reoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) yn ystyried ddylai gael eu cyfeirio at Bwyllgor.

v Ceisiadau am Orchmynion a wnaed dan Ddeddf Priffyrdd 1980 pan fydd y Cynghorydd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn ei ward yn cyflwyno cais ysgrifenedig i Bennaeth yr Adran Reoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) cyn pen y cyfyngiad amser a bennwyd i ymgynghori ar y mater y dylai'r mater gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Ardal. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr ymgynghori parthed y cynnig.